

S4C

S4C:
Edrych i'r Dyfodol
Looking to the Future

Cyflwyniad

Darledwr gwasanaeth cyhoeddus yw S4C, sy'n cynnig yr unig wasanaeth teledu Cymraeg yn y byd. Mae cyfraniad y sianel i fywydau, diwylliant ac economi'r Gymru fodern yn bellgyrhaeddol. Mae iddi le unigryw yn yr hinsawdd ddarledu ac mae'n chwarae rhan bwysig o ran amrywiaeth llais a chynnwys o fewn y cyfryngau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Mae'r diwydiant darledu yn newid yn gyflym ond mae'r profiad o wyllo, ar sgrin fawr neu sgrin fach, gartref neu ar daith, yn dal i chwarae rhan ganolog ym mywydau'r mwyafrif llethol o bobl.

Wrth i ddulliau gwyllo ac ymateb amlhau, rhaid sicrhau fod y Gymraeg, ac S4C, yn gallu gwneud yn fawr o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddod â chymunedau at ei gilydd mewn ffyrdd newydd. Rhaid gwneud hynny tra'n cynnal safon ac amrywiaeth gwasanaeth teledu dyddiol. Mae gennym weledigaeth ynglŷn â sut mae gwneud hynny, a gyda'n partneriaid creadigol ar draws y wlad, mae gennym y gallu i lwyddo.

Mae S4C yn ddarledwr annibynnol. Mae'r annibyniaeth hwnnw'n rhoi cryfder i'r gwasanaeth a sylfaen ac amrywiaeth i'r diwydiant darledu yng Nghymru.

Pan mae dyfodol darledu cyhoeddus a'r dulliau o'i ariannu'n cael eu trafod yn eang, rhaid hefyd sicrhau fod gofynion darledu yn yr iaith Gymraeg, yr heriau y mae'n eu hwynebu a'r arian sydd ei angen i'w cyflenwi, yn cael sylw amserol ac annibynnol.

Mae S4C yn barod ar bob adeg i gydweithio'n llawn ag unrhyw adolygiad i'r pwrpas hwn ac yn falch o gyflwyno'r ddogfen hon fel sbardun i drafodaeth eang am ddyfodol darledu Cymraeg.

Introduction

S4C is a public service broadcaster, offering the world's only Welsh-language television service. The channel's contribution to people's lives, culture and the economy in modern Wales is far-reaching. It occupies a unique space in the broadcasting ecology, and plays an important role in ensuring a diversity of voices and content in the media in Wales and the United Kingdom.

The broadcasting industry is changing rapidly, but the experience of viewing, be it on a large or small screen, at home or on the move, still plays a central role in the lives of the vast majority of people.

As means of viewing and interacting proliferate, there is a need to ensure that the Welsh language, and S4C, can take advantage of opportunities to bring communities together in new ways. This must be achieved while maintaining the quality and range of a daily television service. We have a vision for how this can be done, and with our creative partners throughout the country, we have the ability to succeed.

S4C is an independent broadcaster. This independence strengthens the service, and provides both a diversity of voice and a foundation for the broadcasting industry.

As the future of public broadcasting and the methods of funding it are widely discussed, it must also be ensured that the requirements of broadcasting in the Welsh language, the challenges it faces, and the funding needed to deliver it are given timely and independent attention.


S4C is ready at all times to cooperate fully with any review to this end, and is pleased to present this document as a means of stimulating a broad discussion about the future of Welsh-language broadcasting.

Huw Jones
Cadeirydd
Chairman



Ian Jones
Prif Weithredwr
Chief Executive





Mynegai

- 03 Cyflwyniad
- 06 Crynodeb Gweithredol
- 10 S4C Heddiw
- 14 S4C – Sylfaen i Ddiwydiant Teledu Annibynnol Cymraeg
- 20 Gwerth Partneriaethau S4C
- 26 Effeithlonrwydd S4C
- 28 Heriau'r Dyfodol
- 36 Gwasanaeth y Dyfodol: cyfleoedd a dyheadau
- 48 Ariannu'r Cyfnod Nesaf
- 50 Casgliad

Index

- Introduction
- Executive Summary
- S4C Today
- S4C – A Foundation for an Independent Welsh Language Television Industry
- The Value of S4C's Partnerships
- S4C's Efficiency
- Future Challenges
- Future Service: opportunities and aspirations
- Financing the Next Phase
- Conclusion

Crynodeb Gweithredol

S4C yn Unigryw

- S4C yw'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd.
- Mae'n gwasanaethu siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ledled y DU ac, yn gynyddol, ar draws y byd;
- Rhaid wynebu her y newidiadau ieithyddol sy'n digwydd yng Nghymru a rhaid cynnal ystod a safon rhaglenni;
- Rhaid gwneud y gwasanaeth a'i raglenni yn ddeniadol ac agored i gymaint o bobl â phosibl, tra'n cynnal y genhadaeth sylfaenol o ddarparu gwasanaeth Cymraeg;
- Rhaid parhau i gynnis gwasanaeth i wylwyr traddodiadol tra'n arloesi ar gyfer y gynulleidfa ddigidol. Rhaid gwasanaethu pob elfen o'r gynulleidfa o blant i bobl ifanc i bobl hyn;
- Mae angen sicrhau fod y Gymraeg ar gael ar ystod eang o lwyfannau cyfryngol newydd ac mae cost i bob un o'r rhain.

S4C yn bartner

- Mae S4C yn bartner i sefydliadau a chyrrff ar draws Cymru gan greu ardrawiad ymhell y tu hwnt i'r sgrin deledu;
- Mae gan S4C a'r BBC bartneriaeth greiddiol a llwyddiannus ac mae S4C yn bwriadu bod yn rhan o ddatblygiad Canolfan Ddarlledu newydd y Gorfforaeth yng nghanol Caerdydd;
- Mae S4C yn darparu elfen allweddol o luosogrwydd ac amrywiaeth llais o fewn tirwedd cyfryngol Cymru.

S4C yn effeithiol

- Mae effaith economaidd S4C yn bellgyrhaeddol gyda phob £1 a fuddsoddwyd yn creu cyfanswm gwerth economaidd o £2.09.
- Mae hyn yn gyfystyr ag effaith gyfunol ar economi Cymru o £117m a £170m ar economi'r DU (2014/15);
- Mae S4C wedi dygymod gyda gostyngiad cyfansawdd o £65m yn ei ariannu ers 2010.
- Mae S4C wedi gwireddu arbedion effeithlonrwydd cyfansawdd o dros £12.5m o fewn ei weithgareddau mewnol.
- Mae gorbenion S4C yn cyfateb i 3.98% o'i incwm ac aiff 81% o gyllideb S4C ar gomisiynu rhaglenni a chynnwys;
- Mae wedi llwyddo i leihau'n sylweddol cost pob awr o'r gwasanaeth – gostyngiad o 39% ers 2009.

S4C yn sbardun

- Mae S4C yn sylfaen hanfodol i'r diwydiant cynhyrchu annibynnol Cymreig sydd bellach yn darparu rhaglenni i'r rhwydweithiau Prydeinig a byd eang;
- Mae S4C yn buddsoddi ac yn comisiynu cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru – gweithiodd y sianel gyda 50 cwmni annibynnol yn 2014/15;
- Bydd adleoliad pencadlys S4C i Gaerfyrddin yn 2018 yn cael effaith economaidd ac ieithyddol sylweddol yn y Gorllewin;
- Trwy gyd-gynhyrchu deunydd unigryw bydd S4C yn parhau i fod yn rhan bwysig o broses o greu cynnwys o Gymru y gellir hefyd ei fwynhau trwy gyfrwng y Saesneg.

S4C y dyfodol

- Mae S4C am sicrhau lle i gynnwys Cymraeg ar lwyfannau newydd wrth iddynt esblygu, gan fanteisio ar gyfoeth cynnwys y sianel a chadw'r Gymraeg yn berthnasol ar lwyfannau'r dyfodol.
- Uchelgais S4C yw hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg drwy'r DU a thramor trwy gynyddu cyfleoedd i gyd-gynhyrchu gyda phartneriaid allweddol, gan gynyddu incwm, ardrawiad economaidd ac amlygrwydd.
- Bydd S4C yn cefnogi addysg drwy gydweithio gyda sefydliadau addysg a'r sector cynhyrchu i sicrhau bod cynnwys perthnasol a gomisiynir wedi'i lunio a'i gyflwyno mewn modd sy'n ddefnyddiol i bwrpasau addysgiadol hir-dymor.

Executive Summary

S4C is unique

- S4C is the world's only Welsh-language television channel.
- It serves Welsh speakers in Wales, across the UK, and, increasingly, throughout the world.
- The linguistic changes that are taking place in Wales must be faced, and the range and standard of programmes must be maintained.
- The service and its programmes must be made attractive and available to as many people as possible, whilst maintaining the basic mission of providing a Welsh-language service.
- We must continue to provide a service to traditional viewers whilst innovating for a digital audience. All elements of the audience must be served, from children, to young people, to older people.
- It must be ensured that the Welsh language is available on a wide range of new media platforms and there is a cost associated with each of these.

S4C is a partner

- S4C is a partner to organisations and bodies across Wales, creating an impact far beyond the television screen.
- S4C and the BBC have an important and successful partnership, and S4C intends to play a part in the development of the Corporation's new broadcasting centre in central Cardiff.
- S4C provides a key element of plurality and diversity of voice in the Welsh media landscape.

S4C is efficient

- S4C's economic impact is far-reaching, with every £1 invested creating a total economic value of £2.09.
- This equates to a combined effect of £117m on the Welsh economy and £170m on the UK economy (2014/15).
- S4C has dealt with a cumulative reduction of £65m in its funding since 2010.
- S4C has delivered cumulative gross efficiency savings of over £12.5m from within its operations.
- S4C's overheads equate to 3.98% of its income, and 81% of S4C's budget is spent on commissioning programmes and content.
- It has managed to substantially reduce the cost of each hour of service – 39% since 2009.

S4C is a driver

- S4C is an essential foundation for the Welsh independent production industry, which now provides programmes to British and worldwide networks.
- S4C invests and commissions content from companies across Wales – the channel worked with 50 independent companies in 2014/15.
- Relocating S4C's headquarters to Carmarthen in 2018 will have a substantial economic and linguistic impact in west Wales.
- By co-producing unique material, S4C will continue to be an important part of the process of creating content from Wales which can also be enjoyed through the medium of English.

S4C in the future

- S4C wants to secure a place for Welsh language content on new platforms as they evolve, taking advantage of the channel's rich content and maintaining the language's relevance in future platforms.
- S4C's ambition is to promote Wales and the Welsh language across the UK and abroad by increasing opportunities to co-produce with key partners, increasing revenues, economic impact and prominence.
- S4C will support education by collaborating with educational institutions and the TV production sector to ensure that relevant commissioned content is designed and made available in ways which maximise its long-term educational value.

- Mae llwyfan o fewn y cyfryngau torfol cyfoes yn hanfodol i ffyniant unrhyw iaith. S4C yw'r unig lwyfan teledu ar gyfer y Gymraeg;
- Rhaid sicrhau parhad annibyniaeth S4C, pa fframwaith reoleiddio bynnag gaiff ei fabwysiadu ar gyfer y BBC yn y dyfodol;
- Mae amseriad y gwahanol benderfyniadau sy'n dylanwadu ar gyllid S4C yn creu ansicrwydd wrth ystyried sut y bydd S4C yn parhau i dderbyn arian digonol;
- Mae'n briodol cymryd ystyriaeth o'r toriadau sylweddol y mae S4C eisoes wedi'u hwynebu wrth ystyried tegwch ariannu dros y cyfnod sydd i ddod;
- Ar y lefel uchaf o doriadau posibl sydd i ddod, byddai incwm S4C wedi'i dorri o 50% ers 2010;
- Dylid rhoi ystyriaeth lawn ac annibynnol i'r hyn y dylai S4C fod yn ei gyflawni wrth ddarparu gwasanaeth darlledu cyhoeddus modern yn y Gymraeg, ac i'r adnoddau sydd eu hangen arni er mwyn gwneud hynny.

- A platform within contemporary mass media is essential for the prosperity of any language. S4C is the only television platform available for the Welsh language.
- S4C's continuing independence must be ensured whichever regulatory framework is adopted for the BBC in the future.
- The timing of the various decisions which impact upon S4C's funding creates uncertainty in establishing how S4C will continue to receive sufficient funding.
- It is appropriate to take into consideration the substantial cuts S4C has already been subject to when considering fair funding over the forthcoming period.
- At the highest level of possible future reductions S4C's income would have been cut by 50% since 2010.
- Full and independent consideration should be given to what S4C ought to be accomplishing in providing a modern public broadcasting service in the Welsh language, and to the resources needed to do so.




• Mae effaith economaidd S4C yn bellgyrhaeddol gyda phob £1 a fuddsoddwyd yn creu cyfanswm gwerth economaidd o £2.09.

• S4C's economic impact is far-reaching, with every £1 invested creating a total economic value of £2.09.




• Mae hyn yn gyfystyr ag effaith gyfunol ar economi Cymru o £117m a £170m ar economi'r DU (2014/15);

• This equates to a combined effect of £117m on the Welsh economy and £170m on the UK economy (2014/15).



• Mae gorbenion S4C yn cyfateb i 3.98% o'i incwm ac aiff 81% o gyllideb S4C ar gomisiynu rhaglenni a chynnwys;

• S4C's overheads equate to 3.98% of its income, and 81% of S4C's budget is spent on commissioning programmes and content.



• Mae wedi llwyddo i leihau'n sylweddol cost pob awr o'r gwasanaeth - gostyngiad o 39% ers 2009.

• It has managed to substantially reduce the cost of each hour of service - 39% since 2009.

S4C Heddiw

S4C yw'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd. Mae wedi gwasanaethu siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a ledled y DU, ers y 1af o Dachwedd 1982.

Heb ymyriad ac ymrwymiad cyhoeddus, ni fyddai ei gwasanaethau yn gynaliadwy. Mae ardrawiad y sianel yn bellgyrhaeddol ac yn cyfrannu'n helaeth iawn at ddiwylliant, economi ac iaith Cymru.

Mae'n darparu gwasanaeth teledu llawn, rhad-ac-am-ddim, o saith y bore tan yn hwyr y nos bob diwrnod o'r wythnos, ac o chwech y bore ar benwythnosau. Yn yr oriau brig rhwng 7.00 a 10.00 y nos, mae'n canolbwyntio ar ddarparu deunydd newydd, gan ddefnyddio'r oriau allfrig yn bennaf i gynnig ail-ddangosiadau.

Mae'n darlledu dros 115 awr o raglenni bob wythnos, gan gynnwys gwasanaeth plant, chwaraeon, drama, cerddoriaeth, rhaglenni ffeithiol, adloniant a digwyddiadau, ar draws amrywiaeth o lwyfannau – yn eu plith s4c.cymru ac ar y BBC iPlayer.

Gydag un sianel deledu yn unig, mae'n darparu gwasanaeth cynnwys Cymraeg gwerthfawr a chynhwysfawr i bob rhan o'r gymuned yng Nghymru – a thu hwnt. **Dim ond S4C sy'n cynnig yr ystod yma o raglenni yn Gymraeg.**

Bywyd ac iaith Cymru

Mae'r Gymraeg wrth wraidd cylch gwaith a bodolaeth S4C. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd tua 562,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Amcangyfrifir y gall fod tua 200,000 arall yn byw yng ngweddill y Deyrnas Unedig, gyda nifer sylweddol pellach wedi eu gwasgaru ar draws y byd.

Rydym yn dod â siaradwyr Cymraeg rhugl at ei gilydd yn ogystal â meithrin siaradwyr a dysgwyr llai rhugl - yng Nghymru ac ymhlith y Cymry ar wasgar. Anogir y di-Gymraeg i fanteisio ar ein gwasanaethau drwy is-deitlau a chyfleusterau'r botwm coch. Mae gennym raglenni arbennig ar gyfer dysgwyr Cymraeg ac mae'r holl wasanaeth yn adnodd gwerthfawr iddynt. Mae ein gwasanaethau plant yn rhoi sylfaen ieithyddol gref i blant o bob oed gyda rhaglenni sydd yn ysbrydoli ac yn diddanu.

Mae'n hanfodol i ffyniant unrhyw iaith bod y rhai sy'n ei siarad yn ei chael hi'n hawdd ac yn naturiol i'w defnyddio mewn pob math o sefyllfaoedd. Mae hyn yn arbennig o wir am iaith leiafrifol yn yr oes ddiwyllianol ryngwladol sydd ohoni, gyda chyfryngau newydd o bob math yn creu cymunedau newydd traws-ffiniol. **Mae bodolaeth S4C yn ei gwneud hi'n bosib cynnig y diwylliant cyfoes hwn i siaradwyr Cymraeg trwy gyfrwng eu hiaith eu hunain, gan wasanaethu pob rhan o'r gynulleidfa – waeth beth fo'i lefel rhuglder.**

Mae S4C yn rhan hanfodol o'r ymdrech i greu amgylchedd lle mae'r iaith yn ffynnu, yn fywiog ac yn fyw, amgylchedd lle mae gan bobl y dewis o fwynhau a thrafod adloniant, newyddion, chwaraeon a'r celfyddydau drwy gyfrwng y Gymraeg - yn y gwaith a gartref.

S4C Today

S4C is the world's only Welsh-language television channel. It has served Welsh speakers in Wales and across the UK since 1 November 1982.

Its services would be unsustainable without public intervention and commitment. The channel's impact is far-reaching and contributes greatly to the culture, economy and language of Wales.

It provides a full television service, free of charge, from seven o'clock in the morning until late at night every day of the week, and from six o'clock in the morning on weekends. During the peak hours between 7.00 and 10.00 in the evening, it focuses on providing new material, using the off-peak hours mainly to show repeats.

It broadcasts over 115 hours of programming every week, including a children's service, sport, drama, music, factual programmes, entertainment and events across a variety of platforms, which include s4c.cymru and the BBC iPlayer.

With only one television channel, it provides a valuable and comprehensive Welsh content service to all parts of the community in Wales – and beyond. **Only S4C offers this range of programmes through the medium of Welsh.**

Life and language in Wales

The Welsh language is central to S4C's remit and existence. According to the 2011 census, there were approximately 562,000 Welsh speakers in Wales. It is estimated there could be around 200,000 more living in the rest of the United Kingdom, with a further substantial number scattered across the globe.

We bring fluent Welsh speakers together and also nurture less fluent speakers and learners – in Wales and among the Welsh diaspora. Non-Welsh speakers are encouraged to use our services through subtitles and red button facilities. We have dedicated programmes for Welsh learners and the entire service is a valuable resource for them. Our children's services provide a strong linguistic foundation for children of all ages through programmes which are inspiring and entertaining.

It is essential to the prosperity of any language that those who speak it find it easy and natural to use it in all kinds of situations. This is especially true of a minority language in this international cultural age, with new media of every kind creating new cross-border communities. **The existence of S4C makes it possible to offer this contemporary culture to Welsh speakers through the medium of their own language, serving all sections of the audience, regardless of their level of fluency.**

S4C is an essential part of the effort to create an environment where the language is thriving, active and alive, an environment where people have the choice of enjoying and discussing entertainment, news, sport and the arts through the medium of Welsh – at work and at home.



Gwerthfawrogiad y gynulleidfa:

- Mae gwerthfawrogiad cynulleidfa S4C yn uchel: dangosodd ymchwil gyda Phanel Ymateb S4C (Kantar Media: Ebrill-Tachwedd 2014) sgôr gwerthfawrogiad o 79 allan o 100, o'i gymharu â 77 allan o 100 ar gyfer y prif sianeli eraill yng Nghymru;
- Mae ein gwylwyr sy'n siarad Cymraeg yn credu bod gan y sianel rôl addysgiadol gref gyda 86% ohonynt yn teimlo eu bod "wedi dysgu rhywbeth drwy wyllo S4C" (Ffynhonnell - SPA - Tachwedd a Rhagfyr 2014);
- Mae 88% o wylwyr Cymraeg yn credu fod S4C ymhell o flaen sianeli eraill wrth adlewyrchu digwyddiadau yng Nghymru; ac 84% ohonynt yn teimlo fod S4C uwch law pob sianel arall am adlewyrchu sut beth yw byw yng Nghymru (Ffynhonnell - SPA - Tachwedd a Rhagfyr 2014);

S4C yng Nghymru a thrwy'r DU

Mae rhaglenni S4C yn cael eu mwynhau yng Nghymru ac ar draws y DU – gyda rhaglenni'r sianel ar gael ar lwyfannau newydd y mae'r gynulleidfa yn eu defnyddio.

Dangosodd ymchwil ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, BBC Cymru Wales ac S4C, i 81% o'r oedolion sy'n siarad Cymraeg, ddefnyddio gwasanaethau S4C yn y mis cyn yr arolwg (Tachwedd 2012).

Mae ffigyrau gwyllo S4C ar deledu ar draws y DU wedi cynyddu yn ystod 2014-15 gyda 605,000 o wylwyr ar gyfartaledd yn gwyllo bob wythnos, gyda 245,000 o'r rhain tu allan i Gymru. Nid yw hyn yn syndod llwyr, gyda llawer o bobl Cymru yn symud i rannau eraill y DU ar gyfer addysg uwch neu waith. Gwyddom fod llawer o siaradwyr Cymraeg sydd yn magu teuluoedd y tu allan i Gymru yn awyddus i'w plant ddysgu Cymraeg ac yn gwerthfawrogi gwasanaethau plant S4C ar gyfer y diben hwn.

Fel yr unig wasanaeth teledu Cymraeg, ac fel darlledwr cyhoeddus, mae gan S4C rôl unigryw a gwerthfawr i'w chwarae. Mae cynulleidfa sylweddol yn defnyddio'r gwasanaeth yng Nghymru ac yng ngweddill y DU bob wythnos, gyda chynnydd sylweddol wedi bod yn y blynyddoedd diweddar tu allan i Gymru. Serch hynny, nid mynd ar ôl ffigyrau gwyllo doed a ddel yw lle S4C, nac ychwaith i gystadlu efo darlledwyr masnachol am gynulleidfa. Mae gwerth darlledu cyhoeddus mewn iaith leiafrifol a'r hyn y mae'n ei gynnig yn ymwneud â mwy na chost yr awr.

Audience appreciation:

- S4C's audience appreciation is high: research from S4C's Reaction Panel (Kantar Media: April–November 2014) showed an appreciation score of 79 out of 100, compared with 77 out of 100 for the other main channels in Wales.
- Our Welsh-speaking viewers believe that the channel has a strong educational role, with 86% feeling that they "have learned something from watching S4C" (Source - SPA - November and December 2014).
- 88% of Welsh-speaking viewers believe S4C is far ahead of other channels in terms of reflecting events in Wales; and 84% feel that S4C is above all other channels in terms of reflecting the experience of living in Wales (Source - SPA - November and December 2014).

S4C in Wales and across the UK

S4C programmes are enjoyed in Wales and across the UK – with the channel's programmes available on new platforms used by the audience.

Joint research by the Welsh Government, BBC Cymru Wales and S4C showed that 81% of Welsh-speaking adults used S4C's services during the month preceding the survey (November 2012).

Viewing of S4C on television across the UK increased during 2014-15 with an average of 605,000 viewers tuning in each week, including 245,000 outside Wales. This is not entirely surprising, as many Welsh people move to other parts of the UK for higher education or work reasons. We know that many Welsh speakers who raise families outside Wales are eager for their children to learn Welsh and therefore appreciate S4C's children's services.

As the only Welsh-language television service, and as a public broadcaster, S4C has a unique role to fulfil. A sizeable audience uses the service in Wales and the rest of the UK every week, and there has been a considerable increase outside Wales in recent years. Nevertheless, S4C does not exist to chase viewing figures at any cost, nor does it exist to compete for its audience with commercial broadcasters. The value of public service broadcasting in a minority language and what it offers is about much more than cost per hour.




S4C - Sylfaen i Ddiwydiant Teledu Annibynnol Cymraeg

Fel cyhoeddwr-ddarlledwr, mae S4C yn comisiynu mwyafrif helaeth ei rhaglenni gan y sector annibynnol yng Nghymru. Mae'r sector yma wedi tyfu'n elfen bwysig o economi Cymru, a'r sgiliau sydd wedi eu meithrin wrth greu rhaglenni i S4C bellach yn sylfaen i ddiwydiant sy'n darparu rhaglenni i'r rhwydweithiau Prydeinig a byd-eang.

Ers i'r sianel lawnsio ym 1982, mae gwaith S4C fel cyhoeddwr-ddarlledwr wedi arwain at sector annibynnol gref ac arloesol. Nododd Adolygiad Hargreaves o'r Diwydiannau Creadigol yng Nghymru (Mawrth 2010) "heb S4C, mae'n bosib na fyddai cwmnïau cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru o gwbl."

Derbynnir yn gyffredinol bellach bod y sector yng Nghymru yn un llwyddiannus, a bod y seilwaith gref a thalentog sydd yma ers sefydlu S4C, wedi galluogi'r maes i ffynnu nes bod Cymru bellach yn cynnwys nifer o ganolfannau o ansawdd – o Borth y Rhath, ble caiff Pobol y Cwm a Casualty eu ffilmio, i stiwdios newydd Pinewood a'r ganolfan yn Abertawe ble caiff cyfresi fel Da Vinci's Demons eu cynhyrchu.



Caiff bron i 81% o gyllideb gyhoeddus S4C ei fuddsoddi'n uniongyrchol gyda'r sector annibynnol ar gynnwys i'n cynulleidfaoedd.

- 80.69% Rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C
- 15.33% Costau'n ymwneud â'r Gwasanaeth Rhaglenni
- 3.98% Costau gweithredu a gweinyddu

Buddsoddi Ledled Cymru

Mae S4C yn buddsoddi ac yn comisiynu cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru, gan gynnwys Caernarfon, Llanelli, Abertawe a Chaerdydd. Golyga hyn fod effaith economaidd S4C yn cael ei lledaenu mewn cymunedau yng Ngogledd, Gorllewin a De Ddwyrain Cymru.

Gweithiodd S4C gyda 50 o gwmnïau annibynnol yn 2014/15 i ddod â chynnwys i'r sgrin. Caiff y cwmnïau cynhyrchu effaith sylweddol ar eu heconomiâu lleol ac maent yn cyfrannu at weithlu medrus iawn yn eu priod feysydd - a thu hwnt i'w dalgylch wrth i gynyrchiadau deithio'r wlad i ffilmio cynnwys sy'n adlewyrchu Cymru.




S4C - A Foundation for an Independent Welsh-language Television Industry

As a publisher-broadcaster, S4C commissions the vast majority of its programmes from the independent sector in Wales. This sector has grown to be an important element of the Welsh economy, and the skills that have been nurtured when creating programmes for S4C are now the foundation of an industry which provides programmes to networks in Britain and worldwide.

Since its launch in 1982, S4C's work as a publisher-broadcaster has led to a strong and innovative independent sector. The Hargreaves Review of Creative Industries in Wales (March 2010) noted that "without S4C, Wales may well not have any independent television production companies at all."

It is now generally accepted that the sector in Wales is a successful one, and that the strong infrastructure for talent which exists since the establishment of S4C has enabled the sector to thrive so that Wales now has a number of centres of excellence – from Roath Lock, where Pobol y Cwm and Casualty are filmed – to the new Pinewood studios and the centre in Swansea, where series such as Da Vinci's Demons are produced.



Almost 81% of S4C's public income is directly invested in the independent sector for content for our audiences.

- 80.69% Programmes Commissioned by S4C
- 15.33% Costs associated with the programme service
- 3.98% Operational and administration costs

Investing Across Wales

S4C invests and commissions content from companies across Wales, including in Caernarfon, Llanelli, Swansea and Cardiff. This means that S4C's economic impact is spread in communities in north, west and south-east Wales.

S4C worked with 50 independent companies in 2014/15 to bring content to the screen. The production companies have a significant impact on their local economies and contribute to a highly skilled workforce in their respective fields – and beyond their catchment areas as productions travel across the country to film content which reflects Wales.



Effaith Economaidd a Chyllidol S4C

Mae'r buddsoddiad sylweddol sy'n cael ei wneud gan S4C yn ei dro yn creu swyddi mewn cwmnïau a'r gadwyn gyflenwi mewn ardaloedd ar draws Cymru.

O gyfresi tymor hir fel ein drama Rownd a Rownd sydd wedi creu cnewyllyn creadigol ym Mhorthaethwy, i Prynawn Da a Heno - ein rhaglenni cylchgrawn o Lanelli - i ardrawiad sylweddol Y Gwyll / Hinterland ar Aberystwyth a Cheredigion, caiff cynyrchiadau S4C effaith economaidd sylweddol.

Dengys ymchwil annibynnol (Arad) fod pob £1 a fuddsoddwyd gan S4C yn yr economi yng Nghymru a'r DU yn creu cyfanswm gwerth o £2.09.

Cafodd S4C effaith gyfunol ar economi Cymru o £117m a £170m ar economi'r DU yn ystod 2014/15.

Yn ogystal â chael ardrawiad economaidd ar Gymru a'r DU, mae gwaith S4C hefyd yn creu ardrawiad ariannol sylweddol o ran yr arian trethi a gaiff ei dalu i'r Trysorlys. Mae ymchwil a wnaethpwyd ar ran S4C (Arad) yn amcangyfrif bod cyfanswm y cyfraniadau treth uniongyrchol ac anuniongyrchol a grëwyd gan weithgareddau craidd S4C yn £39m y flwyddyn.


Mae hyn yn gyfystyr â dychwelyd £0.51 o bob £1 o gyfanswm gwariant S4C yn 2014/15 i'r Trysorlys naill ai fel treth uniongyrchol neu anuniongyrchol.

Pob £1 a fuddsoddwyd gan S4C yn yr economi yng Nghymru a'r DU yn creu cyfanswm gwerth o £2.09.

Cafodd S4C effaith gyfunol ar economi Cymru o £117m a £170m ar economi'r DU

Mae cyfanswm y cyfraniadau treth uniongyrchol ac anuniongyrchol a grëwyd gan weithgareddau craidd S4C yn £39m y flwyddyn.

Mae hyn yn gyfystyr â dychwelyd £0.51 o bob £1 o gyfanswm gwariant S4C yn 2014/15 i'r Trysorlys naill ai fel treth uniongyrchol neu anuniongyrchol.



S4C's Economic and Fiscal Effect

The substantial investment which is made by S4C in turn creates jobs in companies and the supply chain in areas across Wales.

From long-term series such as our drama Rownd a Rownd, which has created a creative nucleus in Menai Bridge, to Prynawn Da and Heno - our magazine programmes from Llanelli - to the significant impact of Y Gwyll / Hinterland on Aberystwyth and Ceredigion, S4C productions have a substantial economic impact.

Independent research (Arad) shows that every £1 invested by S4C in the economy in Wales and the UK creates a total value of £2.09.

S4C had a combined effect of £117m on the Welsh economy and £170m on the UK economy during 2014/15.

As well as making an economic impact on Wales and the UK, S4C's work also has a substantial fiscal impact in terms of tax revenue which is paid to the Treasury. Research conducted on behalf of S4C (Arad) estimates that the total direct and indirect tax contributions created by core S4C activities is £39m a year.


This equates to a return of £0.51 for every £1 of S4C's total spend in 2014/15 to the Treasury, either as direct or indirect tax.

Every £1 invested by S4C in the economy in Wales and the UK creates a total value of £2.09.

S4C had a combined effect of £117m on the Welsh economy and £170m on the UK

Total direct and indirect tax contributions created by core S4C activities is £39m a year.

This is equivalent to a return of £0.51 for every £1 of S4C's total spend in 2014/15 to the Treasury, either as direct or indirect tax.



Creu effaith trwy weithio mewn partneriaeth

Mae S4C yn bartner creiddiol i nifer o sefydliadau blaenllaw Cymru. Drwy weithio gyda'n gilydd, rydym yn adlewyrchu Cymru a'r Cymry ar y sgrin, ond hefyd yn cynnig gwerth ychwanegol i'r gynulleidfa.

Mae'r cyd-weithio'n amrywio o gytundebau cyd-ddealltwriaeth ffurfiol i brosiectau neu gynnwys penodol ar y cyd. Ymhlith ein partneriaid presennol mae Cyngor Celfyddydau Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Yr Urdd, BAFTA Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru, It's My Shout, Theatr Genedlaethol Cymru, Into Film, a Ffilm Cymru Wales.

Mae'r partneriaethau hyn wedi arwain at berfformiadau arloesol aml-gyfrwng – ar sgrin ac ar lwyfan; at gefnogi gweithgarwch creadigol mewn ardaloedd difreintiedig; at gynlluniau i ddarganfod a mentora talent a chreu cynnwys newydd ym myd y ddrama; ac at greu sioeau llwyfan i blant yn seiliedig ar gymeriadau rhaglenni plant. Mae partneriaid S4C yn unfrydol eu gwerthfawrogiad o'r ffordd y mae gwaith y sianel, a pharodrwydd S4C i gydweithio yn caniatáu i'w gwaith nhw gael effaith llawer mwy pellgyrhaeddol.

Drwy ein gwaith partneriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, mae S4C wedi bod yn rhan greiddiol nifer o brosiectau cyffrous. Yn eu plith roedd:

Lansio cytundeb cyd-ddealltwriaeth newydd gyda Chanolfan Mileniwm Cymru i ddarganfod talent newydd a chreu cynnwys dramatig Cymreig fydd yn heriol, yn gyfoes ac yn arloesi ac o ddiddordeb i gynulleidfa oedd y ddau sefydliad.

S4C yn bartner darlledu'r Sioe Amaethyddol Frenhinol ac yn mynd â'r cynnwys i Gymru a'r byd.

Cefnogi talent creadigol y dyfodol ac annog datblygiad cynnwys yn y Gymraeg mewn cymunedau difreintiedig gydag It's My Shout.

Mynd â Cyw at y gynulleidfa gydag Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Patagonia 150 - partneriaeth gyda Theatr Genedlaethol Cymru a National Theatre Wales, Cyngor Celfyddydau Cymru, Celf Rhyngwladol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Prydeinig.

Y Labordy – datblygu sgiliau sgriptio cyfoes gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, Ffilm Cymru Wales, Creative Skillset Cymru a Llenyddiaeth Cymru.



Creating impact by working in partnership

S4C is a core partner to a number of Wales's leading institutions. By working together, we reflect Wales and the people of Wales on screen, but also offer added value to the audience.

Co-operation varies from formal agreements of understanding to specific joint projects or content. Our current partners include the Arts Council of Wales, Wales Millennium Centre, the Urdd, BAFTA Cymru, the Welsh Books Council, Welsh National Opera, It's My Shout, Theatr Genedlaethol Cymru, Into Film, and Ffilm Cymru Wales.

These partnerships have led to innovative multi-media performances – on screen and on stage; to supporting creative activity in deprived areas; to schemes to find and mentor talent and create new content in the world of drama; and to creating stage shows for children based on characters from children's programmes. S4C's partners are unanimous in their appreciation of the way the channel works, and S4C's willingness to co-operate enables their work to have a much more far-reaching effect.

Through our partnership work over the last year, S4C has been a core part of a number of exciting projects. These included:

Launching a new agreement of understanding with the Wales Millennium Centre to find new talent and create Welsh dramatic content that is challenging, contemporary and innovative and of interest to the audiences of both organisations.

S4C is a broadcasting partner of the Royal Welsh Show and broadcasts the content to Wales and the world.

Supporting the creative talent of the future and encouraging the development of Welsh-language content in deprived communities with It's My Shout.

Taking Cyw to the audience with the Urdd Eisteddfod and the National Eisteddfod.

Patagonia 150 - Partnership with Theatr Genedlaethol Cymru and the National Theatre Wales, the Arts Council of Wales, Wales Arts International, the Welsh Government, and the British Council.

Y Labordy – developing contemporary scripting skills with the Arts Council of Wales, Ffilm Cymru Wales, Creative Skillset Cymru, and Literature Wales.



Gwerth Partneriaethau S4C

“Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gydweithio â’r sianel yn ystod y tair blynedd nesaf wrth i’r Atom fraenaru’r tir ar gyfer dyfodiad S4C i dref Caerfyrddin yn 2018.”

[Gwydion Wynne](#)

[Cyfarwyddwr](#)

[Canolfan Gymraeg, Caerfyrddin](#)

“Gobeithwn y gall y ddau sefydliad adeiladu ar eu profiad hyd yma o gydweithio, er mwyn creu rhagor eto o ddigwyddiadau a chynnyrch celfyddydol mentrus a chyffrous fydd yn cael dylanwad cadarnhaol ar ein cynulleidfaoedd ac ar fywyd diwylliannol Cymru.”

[Arwel Gruffydd](#)

[Cyfarwyddwr Artistig](#)

[Theatr Genedlaethol Cymru](#)

“Uchafbwynt y cydweithio yw’r darlledu o’n Heisteddfod Genedlaethol, gŵyl sy’n denu 15,000 o gystadleuwyr a 90,000 dros gyfnod o chwe diwrnod ym mis Mehefin. Mae’r bartneriaeth gydag S4C yn cynyddu gwerth y digwyddiad drwy godi proffil a statws, a gwella’r cyfleusterau i’r plant a’r bobl ifanc sy’n cystadlu.”

[Efa Gruffudd Jones](#)

[Prif Weithredwr](#)

[Urdd Gobaith Cymru](#)

“Dyma wir bartneriaeth, lle mae dau sefydliad yn cydweithio er lles y gynulleidfa, boed yn ddarlennwyr neu’n wylwyr, ac yn ategu gwaith ei gilydd mewn ffordd greadigol.”

[Elwyn Jones](#)

[Prif Weithredwr](#)

[Cyngor Llyfrau Cymru](#)

“Ar y cyd â’r partner pwysig hwn, mae prosiectau It’s My Shout yn bodoli yn bennaf i roi hyfforddiant a phrofiad i awduron, cyfarwyddwyr, gweithwyr criw ac actorion newydd i weithio ar ffilmiau o ansawdd ddarlledu.”

[Becky Davies](#)

[Cynorthwydd Cynhyrchu](#)

[It’s My Shout](#)

“Gan gofio fod y gymdeithas â 22,000 o aelodau ar draws y byd, ac yn cyfrannu £40 miliwn i’r economi wledig, mae bodolaeth annibynnol y sianel yn caniatáu i’n gwaith gael ei werthfawrogi yn rhyngwladol.”

[Steve Hughson](#)

[Prif Weithredwr](#)

[Y Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru](#)

“Mae Merched y Wawr yn falch o bob cyfle i gydweithio gydag S4C. Mae ein haelodau o bob pegwn o Gymru yn gwerthfawrogi’r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys y dysgwyr disglair a’r rhaglenni arbennig a wneir i’w cynorthwyo hwy i groesi’r bont.”

[Tegwen Morris](#)

[Cyfarwyddwr Cenedlaethol](#)

[Merched y Wawr](#)

“Ein huchelgais yw gweithio gyda’n gilydd er mwyn cynhyrchu gwaith newydd o’r safon orau o Gymru, meithrin talent yng Nghymru a dyrchafu’r profiadau yr ydym eisoes yn eu cynnig i’n cynulleidfaoedd perthnasol.”

[Mathew Milsom, Rheolwr Gyfarwyddwr](#)

[Canolfan Mileniwm Cymru](#)

“Mae’r celfyddydau yn ganolog i ddiwylliant Cymraeg ac felly mae’n partneriaeth gydag S4C yn un hanfodol bwysig i ni. Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhyngom er mwyn cydweithio i gynyddu’r gynulleidfa Gymraeg a chael y gwerth gorau o fuddsoddiad cyhoeddus. Mae hyn wedi gweithio’n dda, wrth i ni ddatblygu nifer o brosiectau gyda’n gilydd, a’r rheini’n arwain at gomisiynu gwaith newydd gan artistiaid a dangos y gorau o’r digwyddiadau a’r dalent sydd gan Gymru i’w cynnig.”

[Sian Tomos](#)

[Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio](#)

[Cyngor Celfyddydau Cymru](#)

“Wrth weithio mewn partneriaeth gydag un nod strategol gyffredin, rydym wedi llwyddo i drefnu digwyddiadau unigryw ar y cyd sy’n cynnig golwg ar y broses greadigol o greu cynnwys yng Nghymru - gan ysbrydoli’r genhedlaeth nesaf a chefnogi unigolion a chwmnïau sydd eisoes wedi ennill eu plwyf.”

[Hannah Raybould](#)

[Cyfarwyddwr](#)

[BAFTA Cymru](#)

“Mae cydweithio gydag S4C yn hanfodol gan ei fod yn sicrhau fod gweithgareddau’r Eisteddfod yn cyrraedd cartrefi ledled y wlad a thu hwnt, a chodi proffil y Gymraeg.”

[Elfed Roberts](#)

[Prif Weithredwr](#)

[Eisteddfod Genedlaethol Cymru](#)

“Nod Mudiad Meithrin yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r cydweithio agos gyda S4C - ar sgrin ac mewn digwyddiadau yn cefnogi hynny.”

[Dona Lewis](#)

[Dirprwy Brif Weithredwr](#)

[Mudiad Meithrin](#)

“Mae’r Brifysgol ac S4C yn cydweithio’n ddiwyd i sefydlu Canolfan S4C Yr Egin. Bydd yn ganolfan greadigol fyrlymus, gynhyrfus ac arloesol; bydd yn hafan creadigrwydd a ddaw â bri cenedlaethol a rhyngwladol yn ei sgil i S4C a’i phartneriaid, ac yn sbardun ar gyfer adfywiad ieithyddol a diwylliannol yn Sir Gâr.”

[Gwilym Dyfri Jones](#)

[Dirprwy Is-ganghellor Cysylltiol](#)

[Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant](#)

“Mae presenoldeb cyflwynwyr Cyw yn fodd o godi proffil ein gwaith ac yn cael ei werthfawrogi’n fawr iawn nid yn unig gennym ni ond yn bwysicach oll gan ein rhieni a’u teuluoedd.”

[Dinah Ellis](#)

[Cydlynnydd Cenedlaethol](#)

[Twf](#)

The Value of S4C’s Partnerships

“We very much look forward to working with the channel over the next three years as Yr Atom prepares the ground for S4C’s arrival in Carmarthen in 2018.”

[Gwydion Wynne](#)

[Director](#)

[Carmarthen Welsh Centre](#)

“We hope that the two organisations can build on their experience thus far of working together, in order to create more exciting and innovative cultural events and productions which will have a positive impact on our audiences and Welsh cultural life.”

[Arwel Gruffydd](#)

[Artistic Director](#)

[Theatr Genedlaethol Cymru](#)

“The highlight of the partnership is the broadcasting of our National Eisteddfod, a festival that attracts 15,000 competitors and 90,000 visitors over a six-day period in June. The partnership with S4C gives added value to the event by raising its profile and status, and enhancing the facilities for the children and young people competing.”

[Efa Gruffudd Jones](#)

[Chief Executive](#)

[Urdd Gobaith Cymru](#)

“This is a true partnership, where two organisations work together for the audience’s benefit, whether they are readers or viewers, and support each other’s work in a creative way.”

[Elwyn Jones](#)

[Chief Executive](#)

[Welsh Books Council](#)

“In collaboration with this important partner, It’s My Shout’s projects exist primarily to give new and emerging writers, directors, crew and actors training and experience working on broadcast quality films.”

[Becky Davies](#)

[Production Assistant](#)

[It’s My Shout](#)

“Keeping in mind that the society has 22,000 members across the world, and contributes £40 million to the rural economy, the independent existence of the channel allows our work to be appreciated internationally.”

[Steve Hughson](#)

[Chief Executive](#)

[Royal Welsh Agricultural Society](#)

“The Merched y Wawr movement welcomes every opportunity to work closely with S4C. Our members from the four corners of Wales appreciate the channel’s Welsh-language provision, including the Welsh learners who enjoy the specific programmes produced to help them master the language.”

[Tegwen Morris](#)

[National Director](#)

[Merched y Wawr](#)

“Our ambition is to work together to produce some of the very best new work to come out of Wales, nurturing talent within Wales and elevating the experiences we already offer our respective audiences.”

[Mathew Milsom, Managing Director](#)

[Wales Millennium Centre](#)

“The arts are at the heart of Welsh language culture so our partnership with S4C is a fundamentally important one for us. We have a Memorandum of Understanding between us to work collaboratively to grow the Welsh-language audience and maximise public investment. It’s worked well resulting in us developing a number of projects together, leading to the commissioning of new works from artists and the showcasing of the best that Wales has to offer in terms of its events and talents.”

[Sian Tomos](#)

[Director of Enterprise and Regeneration](#)

[Arts Council of Wales](#)

“By working in partnership with shared strategic goals we have been able to coordinate unique events which have offered insights into the creative processes of those making content in Wales - inspiring the next generation and supporting established individuals and companies.”

[Hannah Raybould](#)

[Director](#)

[BAFTA Cymru](#)

“Working in partnership with S4C is crucial in ensuring that the Eisteddfod’s activities reach the homes of those living in Wales and beyond, thus raising the profile of the Welsh language.”

[Elfed Roberts](#)

[Chief Executive](#)

[The National Eisteddfod of Wales](#)

“Mudiad Meithrin’s aim is to give the opportunity to every young child in Wales to access early years services and experiences through the medium of Welsh. The close collaboration with S4C - on screen and through events - supports this work.”

[Dona Lewis](#)

[Deputy Chief Executive](#)

[Mudiad Meithrin](#)

“The University and S4C are working diligently to establish Canolfan S4C Yr Egin. It will be a dynamic, exciting and innovative centre. As a creative hub, it will bring national and international prestige to S4C and its partners, and will trigger a linguistic and cultural revival in Carmarthenshire.”

[Gwilym Dyfri Jones](#)

[Associate Pro Vice-Chancellor](#)

[University of Wales Trinity Saint David](#)

“The presence of the Cyw presenters is a means of raising the profile of our work and is greatly appreciated, not only by us, but most importantly by the children’s parents and their families.”

[Dinah Ellis](#)

[National Co-ordinator](#)

[Twf](#)

Adleoli S4C y Tu Hwnt i'r Brifddinas

Yn 2018, bydd S4C wedi adleoli ei phencadlys o Gaerdydd i Gaerfyrddin - y darlledwr Cymreig cyntaf, ac yn wir un o'r ychydig sefydliadau cyhoeddus cenedlaethol, i beidio â chanoli ar y brifddinas.

Mae'r cynllun adleoli yn rhagweld ardrowiad economaidd ac ieithyddol sylweddol ar ardal Caerfyrddin, ynghyd ag arbedion ariannol i S4C.

Mae yn agos i 30 o sefydliadau a chwmnïau eraill wedi datgan diddordeb mewn cydleo'i gydag S4C ar y safle newydd, a'r nod yw i S4C fod yn sbardun wrth i ganolfan fywiog o arloesedd ac arbenigedd gael ei chreu yng Ngorllewin Cymru. Bydd y symud yn rhoi S4C wrth wraidd ei chynulleidfa mewn ardal draddodiadol gref o ran siaradwyr Cymraeg, ond gyda'r presenoldeb parhaol yng Nghaerdydd a Chaernarfon yn dal i gynnig cyswllt agos gyda'r gynulleidfa ehangach â'r economi ledled Cymru.

Amcangyfrifir gan bartner y prosiect, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, y bydd 57 swydd llawn amser yn cael eu creu wrth i'r ganolfan gael ei hadeiladu, gyda 150 o swyddi pellach yn gweithio o Ganolfan S4C yr Egin. Amcangyfrifir y bydd y gwerth economaidd ychwanegol yn codi dros gyfnod arferol o 30 mlynedd i £31.2m, wrth i'r swyddi uchod, a'r tua 50 o swyddi a fydd yn cael eu trosglwyddo gan S4C, gefnogi dros 500 o swyddi ychwanegol yn yr ardal.

S4C a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Yn sgil penderfyniad Awdurdod S4C i adleoli pencadlys y sianel i Gaerfyrddin yn 2018, datblygodd perthynas waith ragorol rhwng y sianel a'r Brifysgol. Mae'r naill bartner a'r llall bellach yn cydweithio'n ddiwyd i sefydlu Canolfan S4C Yr Egin ar dir y Brifysgol, canolfan greadigol fyrlymus a fydd yn gartref i oddeutu 20-25 o gwmnïau a sefydliadau gwahanol.

Bydd Canolfan S4C Yr Egin yn ddatblygiad cynhyrfus ac arloesol; bydd yn hafan creadigrwydd a ddaw â bri cenedlaethol a rhyngwladol yn ei sgil i S4C a'i phartneriaid, bydd yn sbardun ar gyfer adfywiad ieithyddol a diwylliannol yn Sir Gâr, bydd yn hwb aruthrol i'r economi leol tra bydd hefyd wedi ei gwreiddio'n ddwfn o fewn ei milltir sgwâr gan ddarparu cyfleon i'r sianel a'rartneriaid eraill ymgysylltu eu hunain mewn amrywiol ffyrdd â'r gymuned leol a rhanbarthol.

Y Ganolfan Ddarlledu newydd yng Nghaerdydd

Mae S4C yn bwriadu bod yn rhan o'r cynlluniau cyffrous i greu canolfan ddarlledu newydd yng Nghaerdydd. Pan fydd y BBC yn symud i'r ganolfan newydd hon, bwriedir i ran allweddol o waith S4C - yr adran ddarlledu - symud yno hefyd. Trwy gyd-leoli'r agweddau hyn ar waith y ddau ddarlledwr byddwn yn cymryd mantais o dechnoleg a gweithdrefnau newydd i greu arbedion cost a fydd o fudd i wasanaethau'r ddau gorff, tra'n sbarduno adfywiad dramatig yng nghanol y brifddinas.

Y BBC

Yn ogystal â'r cytundeb ffurfiol sydd rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C, mae gennym hefyd bartneriaeth weithredol gyda'r BBC sydd yn gweithio ar sawl lefel.

Yr un gyntaf, a'r elfen hynaf a mwyaf creiddiol, yw'r bartneriaeth honno sy'n golygu fod BBC Cymru'n darparu 10 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg i'w darlledu fel rhan ganolog o'r gwasanaeth ar y sgrin. Mae trafod lle a llwyddiant y rhaglenni hyn, ac ymateb y gynulleidfa iddynt, gyda chyd-weithwyr yn y BBC yn rhan bwysig o'r broses o ddeall dymuniadau'r gynulleidfa a dod o hyd i'r atebion creadigol a newyddiadurol gorau posib.

Mae cyfleoedd gwerthfawr yn codi i hyrwyddo rhai o raglenni S4C ar wasanaethau Saesneg y BBC a thrwy hynny mae'r rhain yn gwneud cyfraniad pwysig at ehangu ymwybyddiaeth y gynulleidfa o'r hyn sydd ar gael iddynt.

Mae'r bartneriaeth ffurfiol fwy diweddar wedi dwyn ffrwyth pwysig iawn. Mae sicrhau lle i S4C ar yr iPlayer wedi ehangu defnydd o raglenni'r sianel ac fe fydd yn llwyfan cynyddol bwysig yn y dyfodol. Mae S4C a BBC Radio Cymru yn cydweithio'n gyson ar gynlluniau i feithrin talent newydd, a gwasanaeth plant Cyw yw sail straeon plant Radio Cymru, Tic Toc.

Relocating S4C beyond the Capital

In 2018, S4C will have relocated its headquarters from Cardiff to Carmarthen – the first Welsh broadcaster, and indeed one of the few national public organisations, not to be centred in the capital.

The relocation scheme anticipates a substantial economic and linguistic impact on the Carmarthen area, as well as financial savings for S4C.

Nearly 30 organisations and other companies have expressed an interest in co-locating with S4C at the new site, and the aim is for S4C to be a driver as an active centre of innovation and expertise is created in west Wales. The move will place S4C at the heart of its audience in a strong traditional area in terms of Welsh speakers, but with the permanent presence in Cardiff and Caernarfon continuing to offer a close link with the wider audience and the economy across Wales.

It is estimated by the project's partner, University of Wales Trinity St David, that 57 full-time jobs will be created as the centre is built, with a further 150 jobs working from Canolfan S4C Yr Egin. It is estimated that the additional economic value will increase over a normal period of 30 years to £31.2m, as the above jobs, and the approximately 50 posts which will be transferred by S4C, support over 500 additional jobs in the area.

S4C and University of Wales Trinity St David

Following the S4C Authority's decision to relocate the channel's headquarters to Carmarthen in 2018, the University and S4C have developed a fruitful working relationship. The partners are working diligently on establishing S4C Yr Egin headquarters on the University's site as a dynamic, creative centre which will be home to 20-25 different companies and organisations.

The S4C Yr Egin centre is an innovative, exciting development; it will be a hive of creativity which will bring national and international acclaim to S4C and its partners. It will spark a linguistic and cultural revival in Carmarthenshire, it will be a significant boost to the local economy, and as an integral part of the area's fabric, it will provide opportunities for the channel and other partners to engage in various ways with the local community and the region.

The new broadcasting centre in Cardiff

S4C intends to be a part of exciting new plans to create a new broadcasting centre in Cardiff. When the BBC moves to this new centre, a key part of S4C's work – the broadcasting department – will also be moving there. By co-locating these aspects of both broadcasters' work, we will be capitalising on new technology and procedures to create cost savings which will benefit both organisations, whilst driving a dramatic regeneration in the heart of the capital.

The BBC

As well as the formal agreement between the BBC Trust and the S4C Authority, we also have an active partnership with the BBC which works on a number of levels.

The first, as well as the oldest and most central element, is the partnership which means that BBC Cymru provides ten hours of Welsh-language programming a week to be broadcast as a core part of the on-screen service. Discussing the role and success of these programmes, and the audience's response to them, with colleagues in the BBC is an important part of the process of understanding the wishes of the audience and finding the best possible creative and journalistic solutions.

There are valuable opportunities to promote some of S4C's programmes on the BBC's English services, and these opportunities make an important contribution to raising the audience's awareness of what is available to them.

The more recent form of partnership has led to very important developments. Ensuring a place for S4C on the iPlayer has increased use of the channel's programmes and will be an increasingly important platform in the future. S4C and BBC Radio Cymru co-operate regularly on plans to nurture new talent, and the children's service Cyw is the basis for Radio Cymru's children's stories, Tic Toc.



Sylfaen i Luosgrwydd a Llais Cymru

Hyd yn oed yn yr oes ddigidol, mae'r prinder cyfryngau sy'n rhoi sylw teilwng i Gymru a materion Cymreig wedi'i gydnabod yn eang. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'r ffaith fod S4C yn darparu llwyfan cyhoeddus annibynnol cydnabyddedig, o fewn tirwedd cyfryngol Cymru, yn gyfraniad pwysig i ddemocratiaeth agored ac atebol.

Mae'n golygu bod yna amrywiaeth pwyslais a chefnidir golygyddol ar waith wrth lunio rhaglenni materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol o bob math. O fewn arlwy S4C ei hun, mae'r amrywiaeth o gwmnïau annibynnol sy'n darparu cynnwys ynddo'i hun yn sicrhau ystod eang o safbwyntiau a gweledigaeth, a chyfle i dalent creadigol gael ei feithrin o fewn mwy nag un cartref. Gwnaiff S4C gyfraniad pwysig i'r ystod o leisiau a rhaglenni sydd ar gael i gynulleidfa Cymru.

Mae lluosogrwydd a dewis o fewn y cyfryngau yn rhan hanfodol o unrhyw gymdeithas ddemocrataidd, ac mae hyn yn un mor wir am Gymru a'r Gymraeg.

Annibyniaeth S4C

Yn 2010 cyhoeddodd Jeremy Hunt, Ysgrifennydd Gwladol DCMS ar y pryd, ei fod wedi cytuno gyda'r BBC y byddai'r rhan fwyaf o gyllid S4C, o 2013 ymlaen, yn cael ei dalu o ffi'r drwydded.

Ar y pryd creodd y datganiad yma bryderon eang fod hyn yn gyfystyr â dileu annibyniaeth S4C. Er hyn, mae'r trefniant hwn wedi gweithio'n llwyddiannus, gan ganiatáu i S4C wneud penderfyniadau gweithredol a golygyddol sy'n annibynnol ar strategaethau canolog y BBC, tra'n darparu trefniant lle mae Awdurdod S4C yn atebol i Ymddiriedolaeth y BBC am sicrhau fod y defnydd a wneir o arian y drwydded yn unol â gofynion y Cytundeb Gweithredu.

Sylfaen y llwyddiant hyd yn hyn yw parhad annibyniaeth olygyddol a gweithredol S4C drwy Gytundeb Gweithredu rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC. Mae Ymddiriedolwr y BBC dros Gymru bellach yn aelod hefyd o Awdurdod S4C. Ar yr un pryd crëwyd Bwrdd Partneriaeth ar y cyd i gynyddu'r cyfleodd i gydweithio ar lefel weithredol, er budd y ddau wasanaeth.

Mae'r annibyniaeth yma'n gwarantu bod anghenion gwasanaeth S4C, ynghyd â ffyniant y gadwyn o gynhyrchwyr annibynnol sy'n darparu rhaglenni ar ei gyfer, bob amser yn cael eu diogelu pan fydd heriau newydd dan sylw.

Pa fframwaith reoleiddio bynnag fydd i'r BBC yn y dyfodol bydd angen sicrhau parhad yr annibyniaeth hwn.

Croesawn y datganiad o'i bwysigrwydd a gafwyd mewn llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol (Gorffennaf 2015) lle dywedodd

“Rwy'n cytuno'n gryf y dylai annibyniaeth weithredol a golygyddol S4C o'r Llywodraeth ac Ymddiriedolaeth y BBC barhau, beth bynnag yw'r trefniadau llywodraethiant yn y dyfodol”.

A Foundation for Plurality and a Voice for Wales

Even in the digital age, the shortage of media giving appropriate coverage to Wales and Welsh affairs is widely acknowledged. In these circumstances, the fact that S4C provides a recognised independent public platform, within the Welsh media landscape, is an important contribution to open and accountable democracy.

It means there is a diversity of emphasis and editorial background at work when producing current affairs programmes and factual programmes of all kinds. Within S4C's own provision, the variety of independent companies which provide content ensures in itself a wide range of perspectives and visions, and an opportunity to nurture creative talent from more than one stable. S4C makes an important contribution to the range of voices and programmes which is available to the Welsh audience.

Plurality and choice within the media are an essential part of any democratic society, and this is equally true of Wales and the Welsh language.

S4C's Independence

In 2010, Jeremy Hunt, the Secretary of State for DCMS at the time, announced he had agreed with the BBC that the majority of S4C's funding, from 2013 onwards, would be provided through the licence fee.

At the time, this announcement gave rise to widespread concern that this equated to terminating S4C's independence. Despite these concerns, the arrangement has worked successfully, allowing S4C to make operational and editorial decisions which are independent of the BBC's central strategies, whilst offering an arrangement whereby the S4C Authority is accountable to the BBC Trust for ensuring that the use made of licence fee funding complies with the requirements of the Operating Agreement.

The foundation for this success has been the underpinning of S4C's continued editorial and operational independence by the Operating Agreement between the S4C Authority and the BBC Trust. The BBC Trustee for Wales is now also a member of the S4C Authority. At the same time, a Joint Partnership Board was created in order to increase opportunities for collaboration on an operational level, for the benefit of both services.

This independence guarantees that S4C's service requirements, as well as the prosperity of the chain of independent producers which provide programmes on its behalf, are always protected when new challenges appear.

Whichever regulatory framework will be applicable to the BBC in future, the continuation of this independence will need to be ensured.

We welcome the statement of its importance which was made in a letter from the Secretary of State (July 2015), where he stated that:

“I strongly agree that S4C's operational and editorial independence from both government and the BBC must remain, whatever the future governance arrangements.”

Effeithlonrwydd S4C

Ers 2010, mae S4C wedi derbyn toriad ariannol o 25% mewn arian, neu 36% mewn termau real (ar ôl cymryd chwyddiant i ystyriaeth) erbyn diwedd y trefniadau ariannu presennol.

Mae S4C wedi dygymod gyda gostyngiad cyfansawdd o £65m yn ei ariannu ers 2010. Mae S4C wedi gwireddu arbedion effeithlonrwydd cyfansawdd o dros £12.5m o fewn ei weithgareddau mewnol.

Mae gorbenion S4C bellach yn cyfateb i 3.98% o'r incwm. Yn ôl adroddiad PWC i'r BBC (Gorffennaf 2015) cyfartaledd gorbenion nifer o adrannau llywodraeth ac elusennau yw 11.2%, felly mae S4C yn cymharu'n dda iawn.

Mae nifer y gweithlu wedi gostwng o dros 200 ar ei uchaf i 129 (ar sail amser llawn) erbyn Mawrth 2015. Mae'r buddiannau cytundebol sydd ar gael i'r staff wedi lleihau.

Y flaenoriaeth ar bob adeg yw ceisio gwarchod yr hyn sy'n cael ei wario ar y gwasanaeth ei hun ac ar gynhyrchu rhaglenni. Yn 2010, roedd cyllideb cynnwys S4C yn £83.7m. Erbyn 2014-15 y ffigwr cyfatebol oedd £67m, sef gostyngiad o 19.4%.


Trwy gydweithio'n agos gyda'n cynhyrchwyr i leihau cost cynhyrchu pob awr o gynnwys, llwyddwyd i warchod y nifer o oriau a ddarlledir, yn ogystal ag ystod ac amrywiaeth y gwasanaeth. Mae cost cynhyrchu awr o raglenni gwreiddiol, £32,200 ar gyfartaledd, 39% yn is na'r hyn oedd yn 2009. Mae pob awr o'r gwasanaeth yn costio £10,800 ar gyfartaledd.

Mae'r ffigyrau hyn yn isel iawn o'u cymharu gyda chost cynhyrchu rhaglenni ar gyfer y Rhwydweithiau Prydeinig ac yn dangos yn glir fod S4C a'r cynhyrchwyr yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gwerth am arian trawiadol. Heb y cydweithrediad yma rhwng S4C a'r sector cynhyrchu, ni fyddai wedi bod yn bosib i leihau'r costau mewn modd mor effeithlon.

Mae bron i holl gynnwys gwreiddiol S4C - dros 1,900 o oriau'r flwyddyn- o ddramâu i raglenni plant, chwaraeon, dysgwyr a rhaglenni ffeithiol - yn cael eu cynnig yn y Gymraeg am yr un pris â dwy gyfres fel House of Cards ar Netflix.

Rydym yn effeithlon ac yn edrych i gynyddu ein heffeithlonrwydd a'n ardrawiad drwy weithio mewn partneriaeth gyda nifer o sefydliadau ledled Cymru i gynnig gwerth ychwanegol. Er hyn un elfen sydd angen ei nodi ac sy'n cyfyngu gallu S4C i fod yn effeithiol yw **nad oes gan S4C yr hawl i fenthyg arian**. Mae gan y BBC yr hawl i fenthyg hyd at £400m (o'i gymharu gydag incwm ffi'r drwydded sydd tua £3.7bn). **Nid oes yr un gallu gydag S4C. Yn amodol ar drefniadau ariannu'r dyfodol dylid ystyried pwerau tebyg ar gyfer S4C.**

Incwm Cyhoeddus S4C



S4C's Efficiency

Since 2010, S4C has been subject to a financial cut of 25% in funding, or 36% in real terms (after taking inflation into consideration) by the end of the current funding arrangements.

S4C has dealt with a cumulative reduction of £65m in its funding since 2010. S4C has delivered cumulative gross efficiency savings of over £12.5m from within its operations.

S4C's overheads now equate to 3.98% of its income. According to the PWC report for the BBC (July 2015), the average overheads of a number of government departments and charities are 11.2%, therefore S4C compares very well.

The size of S4C's workforce has decreased from over 200 at its high point to 129 (on a FTE basis) by March 2015. The contractual benefits available to staff have decreased.

The priority at all times is to protect what is spent on the service itself and on producing programmes. In 2010, S4C's content budget was £83.7m. By 2014/15, the equivalent figure was £67m, which is a reduction of 19.4%.


By working closely with producers to lower the cost of producing each hour of content, we have managed to protect the number of hours that are broadcast, as well as the range and variety of the service. The cost of producing an hour of original programming is £32,200 on average, 39% less than it was in 2009. Each hour broadcast cost an average of £10,800.

These figures are very low when compared with the cost of producing programmes for the British networks and demonstrate clearly that S4C and the producers are working together effectively to provide impressive value for money. Without this collaboration between S4C and the production sector, it would not have been possible to reduce costs as effectively.

Almost all of S4C's original content – over 1,900 hours a year – from drama to children's programmes, sport, learners and factual programmes – are offered through the medium of Welsh for the same price as two series such as House of Cards on Netflix.

We are efficient and are looking to increase our efficiency and impact through working in partnership with a number of organisations across Wales to offer added value. Despite this, one element which needs to be noted and which is restricting S4C's ability to be effective is that **S4C doesn't have the right to borrow money**. The BBC has a right to borrow up to £400m (compared with the licence fee income, which is around £3.7bn). **S4C does not have the same capability. Depending on future funding arrangements, similar powers should be considered for S4C.**

S4C's Public Income



Heriau'r Dyfodol

Mae'r cyfnod presennol yma yn un cyffrous iawn ym myd darlledu ac mae technoleg a datblygiadau newydd yn cynnig nifer o gyfleoedd i ddarlledwyr a'r rhai sy'n creu cynnwys.

Mae'r diwydiant teledu yn parhau i ddatblygu ac esblygu'n sydyn, fel y mae arferion gwyllo a disgwiliadau cynulleidfaoedd S4C. Er gwaetha'r cyfleoedd i ddatblygu a'n dyheadau, **mae nifer o heriau a dewisiadau y bydd yn rhaid eu gwneud.**

Llwyfannau

Lansiwyd S4C fel pedwaredd sianel Cymru. Bellach, mae cannoedd o sianeli ar gael i gynulleidfaoedd Cymru ac mae'r ffyrdd y gellir cael mynediad i raglenni yn amlhau drwy'r amser. **Gan mai S4C yw'r unig sianel deledu Gymraeg, mae'n ofynnol iddi sicrhau bod ei chynnwys a'i gwasanaethau ar gael ar draws yr un llwyfannau â darlledwyr eraill ond mae elfen benodol o gost ynghlwm â phob un o'r rhain wrth gwrs.**

Mae cyfran helaeth o'r gynulleidfa yn dal i fwynhau gwyllo teledu ar y pryd – gwyllo llinol. Yn ôl arbenigwyr a sylwebwyr, gall fod yn ugain mlynedd a mwy cyn y daw gwyllo ar-alw neu ar ddyfeisiau heblaw'r teledu yn gyffredinol fwy arferol na gwyllo ar y pryd. Felly rhaid parhau i ddarparu gwasanaeth llinol, cyfoethog ar y safon dechnegol sydd fwyaf cyffredin. Ar yr un pryd, rhaid gwasanaethu'r garfan gynyddol o'r gynulleidfa sydd am wyllo ar-alw ar ystod o wahanol ddyfeisiau a llwyfannau.

Yn dilyn toriad ariannol 2010, penderfynwyd nad oedd yn bosibl cyfiawnhau cost blynyddol uchel y gwasanaeth Manylder Uwch (HD) daearol, Clirlun, ar y pryd. Cyn hir, fodd bynnag, ni fydd modd osgoi'r rheidrwydd i sicrhau fod modd derbyn S4C ar HD ar o leiaf un o'r llwyfannau cyffredin, gan y bydd HD wedi ei sefydlu fel safon arferol i ganran uchel o'r gynulleidfa, ac **os na fydd modd derbyn**

S4C ar y safon yna, bydd canfyddiad yn cael ei greu fod S4C yn wasanaeth eilradd. Fe fydd hyn yn golygu cost ychwanegol. Rhaid i S4C fod hefyd yn gallu cynnig technoleg newydd y dyfodol fel 4K, ac eto, bydd elfen o gost ychwanegol i'r dulliau yma o ddarlledu a gwasanaethu'r gynulleidfa.

Mae'r bartneriaeth gyda'r BBC wedi bod o fudd sylweddol i S4C wrth greu modd i raglenni S4C fod ar gael drwy'r DU ar y BBC iPlayer. Mae defnydd o'r llwyfan arbennig hwn yn ddi-os yn ehangu defnydd o gynnwys S4C. Ond nid yw ar gael am ddim, ac er bod y pris a delir gan S4C yn deg, mae'n dal i fod yn gost ychwanegol. Yn yr un modd, ond gyda'r un goblygiadau ariannol, fe fyddwn yn awyddus i geisio manteisio, trwy bartneriaeth, ar ddatblygiadau eraill newydd fydd y BBC yn eu cyflwyno, megis yr iStore, yn y dyfodol.

Yn anochel, fel sydd wedi digwydd eisoes gyda YouTube, YouView, TV CatchUp ac eraill, bydd llwyfannau newydd yn ymddangos, ac yn cynnig dulliau newydd hwylus i'r gynulleidfa gael mynediad i raglenni a gwasanaethau. Bydd rhai o'r rhain yn tyfu'n boblogaidd ac yn gyffredin eu defnydd ymhlith carfannau penodol, ac o'r herwydd fe fydd S4C yn awyddus i'w defnyddio er mwyn i raglenni a chynnwys Cymraeg barhau i gael eu hystyried yn rhan o'r byd cyfoes. **Mewn rhai achosion fe allai costau uchel olygu nad oes modd i S4C sicrhau amlygrwydd i gynnwys Cymraeg ar blatfformau unigol.**

Ond fe fydd yn anochel, am flynyddoedd i ddod, y **bydd yn rhaid i S4C, fel y BBC, 'farchogaeth dau geffyl' gan barhau i gynnig gwasanaeth i wylwyr mwy traddodiadol tra'n arloesi a cheisio chadw mewn cysylltiad hefyd â'r gynulleidfa ddigidol a symudol.**

Future Challenges

The present period is a very exciting one in the field of broadcasting and new technology, and developments offer a number of opportunities for broadcasters and those who create content.

The television industry continues to develop and evolve quickly, as do the viewing habits and expectations of S4C's audience. Despite the opportunities to develop and our aspirations, **there are a number of challenges and decisions that will have to be faced.**

Platforms

S4C was launched as Wales's fourth channel. There are hundreds of channels available to Welsh audiences, and the means of gaining access to programmes are increasing constantly. **As S4C is the only Welsh language television channel, it is essential for it to ensure its content and services are available across the same platforms as other broadcasters. However there is a specific element of cost attached to all of these.**

A substantial proportion of the audience still enjoys watching television as it is broadcast – linear viewing. According to experts and commentators, it could be twenty years and more before viewing on-demand or on devices other than TV becomes generally more usual than viewing programmes as they are broadcast. Therefore we must continue to provide a rich linear service to the technical standard which is most prevalent. At the same time, the increasing proportion of the audience who wish to view on-demand on a variety of different devices and platforms must also be served.

Following the 2010 funding reduction, it was decided that it was not possible to justify the high annual cost of the terrestrial High Definition (HD) service, Clirlun. Soon, however, it will no longer be possible to avoid the need to ensure S4C is available on HD on at least one common platform. HD will be established as the normal standard for a large percentage of the audience and **if S4C is not available at this standard, a perception will be created of its being a second-rate service.** This will lead to additional cost. S4C must also be able to offer new technology of the future, such as 4K, and again there will be an element of additional cost to these methods of broadcasting and serving the audience.

The partnership with the BBC has been of significant benefit to S4C in creating a way for S4C programmes to be available across the UK on the BBC iPlayer. The use of this particular platform is undoubtedly expanding the use of S4C content. But it is not available free of charge, and although the price which is paid by S4C is fair, it is still an additional cost. Similarly, but with the same financial implications, S4C will be eager to attempt to take advantage, through partnership, of other new developments the BBC will be introducing, such as the iStore in the future.

Inevitably, as has already happened with YouTube, YouView, TV CatchUp and others, new platforms will appear, offering convenient new ways for the audience to access programmes and services. Some of these will become popular and widely used among certain sections of the audience, and, accordingly, S4C will be eager to make use of them so that Welsh-language programmes and content continue to be considered a part of the contemporary world. **In some cases, high costs could mean that it won't be possible for S4C to ensure prominence for Welsh-language content on individual platforms.**

But it will be inevitable, for years to come, that **S4C will, in the same way as the BBC, "ride two horses" by continuing to offer a service to more traditional viewers whilst innovating and attempting also to keep in contact with the digital and mobile audience.**

Cynulleidfaoedd S4C

Mae cynulleidfa S4C mor amrywiol â phoblogaeth Cymru, gan gynnwys diwylliant, oed, defnydd o'r iaith, daearyddiaeth ac agweddau bywyd yn gyffredinol. Caiff y sianel ei gwerthfawrogi'n fawr am bortreadu Cymru gyfan, yr elfennau trefol a gwledig, y digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon.

Ond mae disgwyliadau'r gynulleidfa yn amrywiol iawn, ac, fel yr unig sianel deledu Gymraeg, mae'n rhaid i S4C wasanaethu a chyfathrebu gyda phob carfan ohoni.

Mae tystiolaeth gynyddol bod plant a phobl ifanc yn rhyngweithio mewn ffyrdd gwahanol i'w rhieni ac yn gwyllo cynnwys yn wahanol hefyd. Mae'r to ifanc yn disgwyl mwy o glipiau byrion ac i gael eu harwain at gynnwys hirach y gallant ei wyllo pan maent yn teimlo fel gwneud hynny. Maent yn fwy tebygol o wyllo ar alw, ac mae'n her i S4C – a darlledwyr eraill – i'w cyrraedd. Ar y llaw arall, mae cynulleidfa hŷn yn disgwyl bod arlwy cyflawn o raglenni Cymraeg yn dal i fod ar gael i'w gwyllo'n fyw, er bod newidiadau a chynnydd i'w gweld yn y niferoedd sy'n gwyllo ar alw hefyd.

leithyddol

Cadarnhaodd y cyfrifiad diweddar yn 2011 bod defnydd a thirwedd y Gymraeg yn datblygu a gwelwyd hyn hefyd yn yr arolwg defnydd iaith ddiweddar a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Tra bod lleihad bychan yn y nifer o bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad yr iaith (i 562,000), roedd newyddion mwy cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. **Yn eu plith gellir rhagweld twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru dros y 10-20 mlynedd nesaf** - ymhlith plant a phobl ifanc yn enwedig. **Ymddengys hefyd bod nifer y cartrefi cymysg eu hiaith ar gynnydd, a chaiff hynny effaith amlwg ar batrymau gwyllo aelwydydd.**

Yr her i S4C fydd parhau i ddarparu cynnwys ar gyfer pob elfen o'r gynulleidfa yma sy'n fwy amrywiol o ran rhuglder, diddordebau a defnydd o dechnoleg nag erioed o'r blaen. Wrth lwyddo i gyfarfod â disgwyliadau am gynnyrch sy'n cael ei weld yn gyfoes a safonol, (e.e. gyda chyfresi drama newydd) rhaid wedyn cynnal y diddordeb a grëwyd, gyda ffrwd gyson o gynnwys tebyg.

Bydd yn her hefyd i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn ymwneud â chyfryngau Cymraeg a Chymreig yn rheolaidd gyda gwybodaeth am gynnwys a ddylai fod o ddiddordeb iddynt.

Ystod a Safon rhaglenni

Mae ymchwil yn dangos fod **cynulleidfaoedd S4C yn dal i ddisgwyl yr ystod gyflawn o ddarlledu cyhoeddus** - newyddion, drama newydd, adloniant, rhaglenni ffeithiol, chwaraeon, rhaglenni plant a phobl ifanc, rhaglenni gwledig ac amaeth, rhaglenni crefyddol, materion cyfoes ac elfennau digidol ychwanegol. **Does yr un darlledwr arall yn cynnig y rhain yn Gymraeg a heb S4C fyddai'r gwasanaeth yma ddim ar gael.**

Roedd buddsoddiad S4C yn Cyw a Stwnsh, ein gwasanaethau plant, yn £7.5m yn 2014/15. Fel canran o'r holl gyllideb cynnwys, mae hwn yn ffigwr llawer uwch nag y byddai unrhyw sianel arall sy'n cystadlu am wylwyr, neu'n ceisio gwerthu hysbysebion, yn fodlon ei wario. Ond dyma wasanaeth sy'n cynnig ystod o raglenni gwreiddiol ac sy'n cael effaith drawiadol ar drosglwyddiad iaith. Nid oes yr un darlledwr arall yn comisiynu nac yn darlledu gwasanaeth cyfansawdd i blant a phobl ifanc yn y Gymraeg fel hyn. Gwylodd 380,000 Cyw bob mis yn 2014/15 ac mae'r gwerthfawrogiad o'r gwasanaethau yn uchel a chyson.

Ond os bydd torri nôl ar gyllideb S4C yn y dyfodol, bydd yn rhaid wynebu dewisiadau caled:

Gyda llai o arian a fydd modd parhau i ddarparu'r ystod gyfan yma o gynnwys?

A fydd yn bosibl cynnal safon heb gwtogi ar amrediad ac uchelgais y gwasanaeth?

Pa fathau o raglenni bydd yn rhaid gwneud llai ohonynt?

A fydd yn rhaid newid y drefn ddarlledu a darlledu am lai o oriau y diwrnod?

A fydd yn rhaid cynyddu'r nifer o ailddarllediadau (eisoed yn 57% yn 2014/15) gyda goblygiadau wedyn o ran ffigyrau gwyllo a chyrhaeddiad?

A fydd yn rhaid canolbwyntio cyllid rhaglenni ar dymhorau penodol a chyfnodau o'r flwyddyn hyd yn oed yn fwy nag ar hyn o bryd?

Yr her sylfaenol i S4C fydd sut i barhau i wasanaethu holl ystod ei chynulleidfa a'u disgwyliadau amrywiol.

S4C's Audiences

S4C's audience is as varied as the population of Wales, including culture, age, use of the language, geography and life attitudes generally. The channel is greatly appreciated for portraying the whole of Wales, the urban and rural elements, cultural events and sport.

However the audience's expectations vary greatly, and, as the only Welsh-language television channel, S4C must serve and communicate with every part of it.

There is increasing evidence that children and young people interact in different ways to their parents and also view content differently. The younger generation expect more short clips and to be led to longer form content that they can watch when they feel like doing so. They are more likely to watch programmes on-demand, and it's a challenge for S4C – and other broadcasters – to reach them. On the other hand, an older audience still expects a comprehensive range of Welsh-language programmes to be available to watch live, although here too an increase in those viewing on-demand is apparent.

Linguistic

The last census in 2011 confirmed that the use and landscape of the Welsh language was developing, and this was also seen in the recent language use survey which was jointly conducted by the Welsh Government and the Welsh Language Commissioner.

Although there was a slight decrease in the number of people in Wales who can speak the language (to 562,000), there was more positive news for the future. **This includes the anticipated growth in the number of Welsh speakers in Wales over the next 10–20 years, especially among children and young people. It also appears that the number of mixed language homes is increasing, and that has an obvious impact on household viewing patterns.**

The challenge for S4C will be to provide content for every element of this audience, which is more varied in terms of fluency, interests and use of technology than ever before. Success in meeting expectations, by delivering output which is seen as being contemporary and of high quality (e.g. with new drama series), must then be sustained by a steady stream of similar content.

Another challenge will be that of reaching audiences which may not engage regularly with the Welsh-language and Welsh-language media with information about content which would be of interest to them.

Range and Standard of Programmes

Research shows that **S4C's audiences continue to expect the full range of public service broadcasting:** news, original drama, entertainment, factual programmes, sport, programmes for children and young people, rural and agriculture programmes, religious programmes, current affairs and additional digital elements. **No other broadcaster offers these through the medium of Welsh and, without S4C, this service would not be available.**

Investment in S4C's Cyw and Stwnsh children's services, was £7.5m in 2014/15. As a percentage of the whole content budget, this is a much larger figure than any other channel which competes for viewers, or that attempts to sell advertising, would be willing to spend. But this is a service which offers a range of original programmes and has an impressive effect on the transference of language. No other broadcaster commissions or broadcasts a comprehensive service for children and young people through the medium of Welsh in this way. Cyw had 380,000 viewers every month in 2014/15, and the appreciation of the services is high and consistent.

However if S4C's funding were to be cut, difficult choices would have to be made.

Will it be possible to continue to provide this complete range of content with less funding?

Will it be possible to maintain standards without reducing the range and ambition of the service?

What type of programmes will we have to make fewer of?

Will there be a need to change the broadcasting schedule and to broadcast for fewer hours a day?

Will we have to increase the number of repeats (already 57% in 2014/15), with implications in terms of viewing figures and reach?

Will we have to concentrate our funding for programmes in certain seasons and times of year even more than is the case at the moment?

The basic challenge for S4C will be how to continue to serve the whole range of our audience and their varying expectations.

Gwasanaethu Gwlad ddwyieithog

Ers dyddiau cynta'r sianel, mae S4C wedi wynebu'r cwestiwn o berthynas y sianel gyda'r iaith Saesneg. Mae'n ffaith amlwg fod Cymru'n wlad ddwyieithog a bod llawer o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Saesneg hefyd yn gyson yn eu bywyd bob dydd. Yn gynyddol, ceir siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r Saesneg fel prif iaith, gan amlaf oherwydd mai'r iaith honno yw iaith y cartref a'r gwaith.

Mae cwestiynau i'w hwynebu ynglŷn ag i ba raddau y dylai cynnwys y sianel adlewyrchu realaeth y Gymru ddwyieithog sydd ohoni. Mae cwestiynau hefyd ynglŷn â sut i wneud rhaglenni S4C yn hawdd i'w mwynhau gan wylwyr sydd ddim yn siarad Cymraeg. Ac mae yna gwestiynau parhaol ynglŷn â sicrhau fod ansawdd y Gymraeg sy'n cael ei defnyddio ar y sianel yn gyson â chanfyddiadau gwylwyr ynglŷn â'r hyn ddylai iaith fodern fod.

Mae S4C am wneud ei gwasanaeth a'i rhaglenni mor ddeniadol ac agored â phosibl i gymaint o bobl â phosibl, heb droi cefn ar ei chenhadaeth sylfaenol o ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Mae angen mynd i'r afael yn egniol â chwestiwn ansawdd a chywair yr iaith Gymraeg a ddefnyddir ar y sgrin. Yn gyson iawn, fe glywir gan rai gwylwyr deimlad fod y Gymraeg a ddefnyddir ar y cyfryngau yn rhy anodd.

Rydym am roi mwy o bwyslais nag erioed yn y dyfodol ar sicrhau fod pob rhaglen yn ystyried yn ofalus os oes rhwystrau ieithyddol rhag i'r rhaglen gael ei mwynhau gan gynulleidfa eang.

Is-deitlau

Hyd yma, y brif ffordd o wneud hyn oedd trwy ddarparu is-deitlau dewisol - hynny yw, is-deitlau Saesneg y mae'n rhaid i'r gwylwr ei hun eu dewis trwy wasgu botwm. Rydym yn dal o'r farn y byddai gorfodi siaradwyr Cymraeg i wyllo pob rhaglen gydag is-deitlau Saesneg agored ar y sgrin yn amharu ar eu profiad gwyllo.

Credwn fod modd arbrofi ymhellach gydag is-deitlau agored, ond heb wneud hynny'n arferiad ar bob rhaglen.

Byddwn, fel ar hyn o bryd, pan yn ail ddarlledu dramau, yn parhau i wneud hynny gydag is-deitlau agored. Byddwn hefyd yn ystyried arbrofi trwy greu parthau penodol yn yr amserlen, er enghraifft ar ôl 10 o'r gloch, lle byddai pob rhaglen yn ddiwahân yn cario isdeitlau agored. Byddwn yn gwneud mwy i hysbysebu'r ffaith fod is-deitlau yn rhwydd i'r rhai sydd am eu defnyddio. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod modd cael is-deitlau pan yn gwyllo arlein neu drwy'r iPlayer, yn fwy hwylus nag sydd yn bosibl ar hyn o bryd.

Serving a Bilingual Country

Since the channel's earliest days, S4C has faced the question of its relationship with the English language. It is obvious that Wales is a bilingual country and clearly many Welsh speakers also use English regularly in their everyday lives. Increasingly, there are Welsh speakers who use English as their main language, usually because that is the language of the home and the workplace.

There are questions to be considered in terms of to what extent the channel should reflect the reality of bilingual Wales today. There are also questions concerning how to make S4C programmes easy to enjoy for viewers who don't speak Welsh. And there are constant questions about ensuring that the standard of Welsh used on the channel is consistent with viewers' perceptions of what a modern language should be.

S4C wishes to make its service and programmes as attractive and open as possible to as many people as possible, without turning its back on its fundamental mission of providing a service through the medium of Welsh.

The question of the quality and pitch of the Welsh language which is used on screen needs to be considered energetically. Very often, there is a feeling among some viewers that the Welsh which is used in the media is too difficult.

In future, we want to focus more than ever before on ensuring that every programme carefully considers whether there are linguistic barriers preventing the enjoyment of a programme by a wide audience.

Subtitles

Until now, the main way of doing this was by providing optional subtitles - i.e. English subtitles the viewers themselves must select by pressing a button. We still believe that forcing Welsh speakers to watch every programme with on screen English subtitles would disrupt their viewing experience.

We believe that it is possible to experiment further with open subtitles, but without making that the norm for all programmes.

We will, as we do now, when repeating dramas, continue to do so with open subtitles. We will also consider experimenting by creating specific sections of the schedule, for example after ten o'clock, when every programme without exception would carry open subtitles. We will do more to advertise the fact that subtitles are straightforward to use for those who wish to do so. We will also work to ensure there is a way of using subtitles when viewing online or through the iPlayer that is more convenient than currently possible.



Gwasanaeth y Dyfodol: cyfleoedd a dyheadau

Pan lanswyd S4C fel y bedwaredd sianel yng Nghymru ym 1982, gwylio ar y pryd oedd yr unig ddewis. Bellach gyda theledu digidol a'r holl wasanaethau teledu arlein, mae gan ein cynulleidfaoedd ddewis o gannoedd o sianeli teledu gwahanol, a'r gallu i wyllo cynnwys o bob gwlad a phob cyfnod bob awr o'r dydd, ble bynnag a sut bynnag y maent yn dewis gwneud hynny.

Mae cyd-destun ieithyddol Cymru yn cynnig her gymhleth a ddiddorol hefyd. **Mae nifer y cartrefi cymysg eu hiaith wedi cynyddu, nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n siarad yr iaith yn tyfu, ac mae gallu Cymry sydd yn byw y tu allan i Gymru i wyllo'n cynnwys wedi cynyddu.**

Mae'r Gymraeg ar un olwg yn fwy presennol, yn ddaearyddol a chymdeithasol, yng Nghymru a thu hwnt, nag ers canrif a mwy. Ond yn wahanol i'r sefyllfa ganrif yn ôl, mae Cymru'n wlad sy'n gynyddol ddwyieithog, yn hytrach nag yn wlad ag iddi ddwy gymuned ieithyddol wahanol.

Mae'r cyfryngau newydd yn cynnig cyfleoedd newydd i fynd i'r afael â goblygiadau gwasanaethu'r wlad newydd yma trwy gyfrwng ei hiaith gysefin.

Fel sianel a gwasanaeth, mae gennym ddyheadau sylweddol o ran arloesi i barhau i gynnig y gwasanaeth gorau posib i'n cynulleidfaoedd. Wrth wraidd hyn y mae parhau i gynnig cynnwys arloesol o'r safon uchaf. Rydym yn gwneud hyn yn erbyn cefndir o gannoedd o sianeli sydd bellach ar gael yn y Saesneg ac hefyd o fewn cyd-destun ieithyddol newydd Cymru.

O ran dyheadau ac uchelgeisiau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod, bydd S4C yn canolbwyntio ar dri maes:

- **Defnyddio'r Digidol i Uno;**
- **Hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg drwy'r DU a thramor;**
- **Cefnogi Addysg a Meithrin Sgiliau.**

Future Service: opportunities and aspirations

When S4C was launched as Wales's fourth channel in 1982, viewing live television was the only option. Now, with digital television and the multitude of online television services, our audiences have a choice of hundreds of different television channels, and the ability to view content from every country and at all times and hours of the day, wherever and however they choose to do so.

Wales's linguistic context also creates a complex and interesting challenge. **The number of mixed language homes has increased, the number of children and young people which speak both languages is growing, and the ability of Welsh people who live outside of Wales to view the content has increased.**

From one perspective, the Welsh language is more present, geographically and socially, in Wales and beyond, than it has been for a century and more. But unlike the situation a century ago, Wales is a country which is increasingly bilingual, as opposed to a country which has two different linguistic communities.

New media offer new opportunities to tackle the implications of serving this new country through the medium of its indigenous language.

As a channel and as a service, we have significant aspirations in terms of innovating to provide the best service possible to our audiences. Continuing to provide innovative content of the highest quality is at the heart of this. We do this against a background of hundreds of channels which are now available in English and also within Wales's new linguistic context.

In terms of aspirations and ambitions for the years to come, S4C will focus on three areas:

- **Utilising digital to unite;**
- **Promoting Wales and the Welsh language across the UK and abroad;**
- **Supporting education and nurturing skills.**



Defnyddio'r Digidol i Uno

Fel sianel deledu i Gymru, mae S4C wedi bod wrth wraidd cymunedau ledled y wlad ers 1982. O'n rhaglenni adloniant, eisteddfodau, rhaglenni cwis, rhaglenni ffeithiol a dogfen, materion cyfoes, ein rhaglenni amaeth a'n rhaglenni dyddiol, mae gennym hanes hir o adlewyrchu cymunedau gwahanol Cymru ar y sgrin.

Gyda thechnoleg newydd a'r ffordd y mae cymunedau hefyd wedi esblygu gyda phobl yn mudo mwy ac yn gweithio yn bellach o'u cymunedau, gall ein gwasanaethau fod yn bont a chynnig cymunedau arlein fydd yn gyfle i Gymru gyfan i ymwneud â'i gilydd. **Ein nod yw defnyddio ein gwefan a'n presenoldeb arlein i greu cyfleoedd i bobl, grwpiau a chymdeithasau i ddod at ei gilydd yn Gymraeg - heb orfod gwneud hynny'n gorfforol.**

Llwyfannau newydd

Mae pobl am wyluo ar y pryd, ar alw, ac ar ystod o ddyfeisiau yn ogystal â'r teledu traddodiadol. Maent yn disgwyl apiau, cynnwys atodol ac i allu lawrlwytho rhaglenni a'u gwyluo pan mae'n gyfleus iddyn nhw. Dyw cynulleidfaoedd S4C ddim gwahanol ac mae'r sianel wedi esblygu i sicrhau ein bod yn cynnig cynnwys digidol ac ar draws llwyfannau gwahanol.

- Mae ein apiau plant Cyw wedi eu lawrlwytho dros 200,000 o weithiau;
- Cafwyd 5.7m o sesiynau gwyluo arlein yn 2015/15 (4.4m yn 2013/14) – cynnydd o 31% flwyddyn ar flwyddyn;
- Mae modd gwyluo ar s4c.cymru ac ar y BBC iPlayer hefyd
- Mae ein gwasanaeth dysgwyr Dal Ati yn cynnig cefnogaeth ail sgrin i ddysgwyr fwynhau ein rhaglenni fel Y Gwyll / Hinterland a Gwaith Cartref.

S4C ar YouTube


Yn ogystal â chynnig ein cynnwys ar S4C arlein ac ar yr iPlayer, mae llwyfannau megis YouTube a Facebook hefyd yn cynnig cyfleoedd i barhau i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Lansiodd S4C fel sianel ar YouTube yn 2013 – hyd yma yn 2015 mae cynnydd o 64% wedi bod yn y nifer o weithiau mae cynnwys S4C wedi cael ei wyluo ar y plattform o'i gymharu â'r llynedd. Dengys hyn alw clir am ein cynnwys ar blatfformau gwahanol.

Mae mwyafrif y rheiny sydd yn gwyluo fideos ar sianel S4C YouTube rhwng 18-34, demograffeg sydd yn anodd ei chyrraedd drwy deledu a gwyluo ar y pryd. **Eleni, sefydlwyd partneriaeth gyda YouTube sydd wedi sicrhau bod sianel S4C bellach yn ymddangos ar y dudalen flaen wrth i bobl chwilio am 'S4C' ar y plattform.** Eleni hefyd rydym wedi creu sianel YouTube Stwnsh (ein gwasanaeth pobl ifanc), gyda'r bwriad o roi plattform i bobl ifanc fedru creu a rhannu cynnwys eu hunain yn y Gymraeg.

Mae'r cynnydd sylweddol sydd wedi bod yn y gwyluo drwy YouTube yn dangos yn glir bod awch am gynnwys S4C a bod modd ymgysylltu efo cynulleidfa sydd wedi bod yn gwyluo llai o deledu llinol ar y pryd – rhywbeth sy'n gyffredin i'r holl ddarlledwyr. **Mae hefyd yn gyfraniad pwysig iawn o ran clywed a gwyluo rhaglenni drwy gyfrwng y Gymraeg gan grŵp oedran sy'n hanfodol o ran trosglwyddiad iaith.** Gellir disgwyl i'r niferoedd godi'n sylweddol os gallwn barhau i ddatblygu sianelau o'r math yma.

Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn parhau i gynnig mynediad i gynnwys ar blatfformau perthnasol ac i geisio cyrraedd y gynulleidfa honno dan 35 sy'n fwy tebygol, yn ôl pob tystiolaeth, o fwynhau cynnwys ar ddyfeisiau a llwyfannau symudol.



Utilising Digital to Unite


As a television channel for Wales, S4C has been at the heart of communities all over the country since 1982. From our entertainment programmes, eisteddfodau, quiz programmes, factual programmes and documentaries, current affairs, our agricultural programmes and our daily programmes, we have a well established track record of reflecting the different communities of Wales on screen.

With new technology and the way communities have also evolved, with people migrating more and working further away from their communities, our services can be a bridge and offer online communities which will be an opportunity for the whole of Wales to engage with each other. **Our aim is to use our website and online presence to create opportunities for people, groups and societies to come together through the medium of Welsh – without having to do so physically.**

New platforms

People wish to view when they want, on-demand, and on a variety of devices as well as the traditional television set. They expect apps, supplementary content, and to be able to download programmes and watch them when convenient for them. S4C's audiences are no different, and the channel has evolved to ensure we offer digital content and across different platforms.

- Our Cyw children's apps have been downloaded over 200,000 times
- There were 5.7m online viewing sessions in 2015/15 (4.4m in 2013/14) – an increase of 31% year on year
- It's possible to watch on s4c.cymru and BBC iPlayer too
- Our service for learners, Dal Ati, offers second screen support for learners to enjoy our programmes such as Y Gwyll / Hinterland and Gwaith Cartref.



S4C on YouTube

As well as offering our content on S4C online and on the iPlayer, platforms such as YouTube and Facebook also provide opportunities to continue to reach a wider audience.

S4C was launched as a YouTube channel in 2013 – so far in 2015 there has been an increase of 64% in the number of viewing sessions for S4C content on the platform compared with last year. This shows a clear demand for our content on different platforms.

The majority of those who watch videos on S4C's YouTube channel are 18-34, a demographic which is hard to reach through television and live broadcasts. This year, a partnership was established with YouTube which has ensured that S4C's channel now appears on the front page when people search for "S4C" on the platform. Also this year, we have created a YouTube channel for Stwnsh (our service for young people), with the intention of giving young people a platform to create and share their own content in Welsh.

The significant increase in viewing through YouTube clearly shows that there is an appetite for S4C content and that it is possible to engage with an audience which has been watching less live linear television - a challenge common to all broadcasters. **This also makes an important contribution towards enhancing the use of Welsh for listening and viewing by this age group, which is so crucial in terms of language transfer.** Numbers can be expected to increase substantially if such channels can be developed further.

Over the coming years we will continue to provide access on relevant platforms to strive to reach that under-35 audience which prefers to enjoy content on mobile devices and platforms.

Cynnwys ffurf fer

Byddwn yn darparu cynnwys ffurf fer pwrpasol ar gyfer gwylwyr iau gan anelu drwy hynny i godi ymwybyddiaeth yn eu plith o gynnwys S4C a rhaglenni Cymraeg.

Cynnwys i Blant

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau i blant – nid yn unig dyma gynulleidfa'r dyfodol ond dyma siaradwyr Cymraeg y dyfodol hefyd. **Mae gan S4C rôl greiddiol ac unigryw o ran cefnogi trosglwyddiad iaith a chynnig cynnwys sy'n hwyl, yn ddiddorol ac ar gael yn Gymraeg i blant a'u teuluoedd.**

Byddwn hefyd yn datblygu'r gwasanaethau sydd ar gael i ddysgwyr Cymraeg trwy lwyfannau digidol.

Gemau

Mae gemau, a'r diwydiant sydd yn eu creu, yn tyfu ill dau. Ond nid oes llawer o gyfleoedd i fwynhau a dysgu yn y Gymraeg. Mae S4C wedi cael llwyddiant gydag ambell gynllun cynnar – fel Enaid Coll – ac rydym yn annog ac yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg gyda'r 'walk-throughs' Cymraeg o gemau fel Minecraft ar ein sianel Stwnsh ar YouTube.

Rydym am barhau i ddatblygu hyn. **Byddwn yn cynyddu'r nifer o gemau sydd ar gael i'w chwarae trwy wefan S4C ac yn creu ymgysylltiad gyda'n gwasanaeth gwylwyr ar y pryd i adeiladu cynulleidfa ifanc.** Byddwn hefyd yn cydweithio gydag adran fasnachol S4C a phartneriaid eraill er mwyn addasu **allbwn sy'n deillio o fuddsoddiadau:** bydd hyn yn creu cynnwys newydd yn y Gymraeg ac yn cynyddu'r gwerth ariannol hefyd.

Short form content

We will provide bespoke short form content for younger viewers with the aim of raising awareness of S4C and Welsh-language programmes among them.

Content for children

We will continue to develop our service for children – not only is this the audience of the future but these are also the Welsh speakers of the future. **S4C has a core and unique role in terms of supporting the transference of language and offering content which is fun, interesting and available in Welsh to children and their families.**

We will also develop the services which are available to Welsh learners through digital platforms.

Games

The popularity of games, and the industry which creates them, are both growing. But there aren't many opportunities to enjoy and learn through the medium of Welsh. S4C has had success with the occasional early scheme – such as Master Reboot / Enaid Coll – and we encourage and support the use of Welsh through the Welsh "walk-throughs" of games such as Minecraft on our Stwnsh channel on YouTube.

We will continue to develop these elements. **We will increase the number of games that are available to play through the S4C website and which create engagement with our live service to build a young audience. We will also work with S4C's commercial department and other partners to adapt output which results from investments:** this will create new content in Welsh and increase the financial value.



S4C Arlein

Bydd s4c.cymru yn wasanaeth fydd wedi ei bersonoli, yn awgrymu rhaglenni neu eitemau penodol yn ôl diddordebau'r unigolyn ac yn ei gwneud yn haws i wylwyr i rannu clipiau a chynnwys gyda'u ffrindiau hefyd.

Y nod yw ei gwneud yn haws i wylwyr cynnwys ar themâu a diddordebau penodol e.e. hanes, coginio, teithio, garddio, gweithgareddau awyr agored, a chelf. Mae gennym drysorfa o gynnwys newydd yn cael ei greu i bob un o'r meysydd yma a mwy bob blwyddyn o fewn ein rhaglenni. Mae gennym hefyd archif yn llawn cynnwys ar y themâu yma fydd o ddiddordeb i Gymry a Chymru - ac i'r rhai sy'n ymweld â Chymru hefyd. Drwy ryddhau'r archif a chreu isadrannau yn ôl thema, bydd ein cynulleidfa'n gallu cael S4C bersonol iddyn nhw, ar-alw.

Byddwn yn partnera gyda sefydliadau eraill sydd yn ymwneud â meysydd penodol fel bod y cynnwys yn ei cael ei weld a'i ddefnyddio yn eang. O Croeso Cymru gyda'u blwyddyn antur 2016, i'r cyfleoedd o gwmpas rhaglenni gweithgareddau awyr agored megis Ar y Dibyn, i gyd-weithio gyda phartneriaid ledled Cymru, bydd cynnwys S4C yn gallu ychwanegu gwerth a chynnig cyfleoedd i glywed y Gymraeg a dysgu am Gymru - ar-alw ac ar draws llwyfannau.

Ar yr un pryd, bydd ein cynnwys yn parhau i fod ar gael ar y BBC iPlayer a byddwn am gyd-weithio ymhellach i sicrhau defnydd pwrpasol o adnoddau newydd megis BBC iStore.

Byddwn yn tyfu ein presenoldeb poblogaidd ar trydar, Facebook, Snapchat, Pinterest a llwyfannau eraill - elfennau sy'n cael eu disgwyl fel y norm gan gyfran helaeth iawn o'n cynulleidfa a'n darpar gynulleidfa bellach.

Trysorfa ac Archif Arlein i Gymru

Mae gennym dros ddeng mlynedd ar hugain o raglenni yn ein harchif. Ein bwriad yw gweithio gyda phartneriaid - amgueddfeydd, llyfrgelloedd a sefydliadau addysg - i sicrhau y bydd y rhain ar gael i bobl Cymru eu mwynhau a'u defnyddio'n barhaol. **Dyma adnodd i gynnal cof cenedl.**

Ond mae gan y genedl atgofion a phrofiadau y tu hwnt i raglenni teledu. Ein nod felly fyddai cyfuno'r rhain, gan roi cyfle i unigolion, cymdeithasau a chymunedau, i lwytho eu hatgofion fideo eu hunain ar ein gwefan yn glipiau byr, chwiliadwy, mewn perthynas ag archif fwy ffurfiol S4C.

Pobl Hŷn

Rydym am gynnig gwasanaeth digidol arbennig ar gyfer pobl hŷn, gan ddatblygu ein perthynas gyda phartneriaid fel Age Cymru. Rydym am roi cefnogaeth iddynt fanteisio ar gyfleoedd y cyfryngau digidol, gan adeiladu ar boblogrwydd traddodiadol S4C gyda'r garfan hon. Byddwn yn cynnig pwynt cyswllt hygrych, ffyrdd o fwynhau cynnwys S4C neu i ddysgu'n ddigidol a chadw mewn cysylltiad gyda gwasanaethau, cymunedau a gweddill Cymru.



S4C Online

s4c.cymru will be a personalised service, which suggests specific programmes or items according to individual interests and makes it easier for viewers to share clips and content with friends.

The aim is to make it easier to find content on specific themes and interests, e.g. history, cookery, travel, gardening, outdoor pursuits and the arts. Our programmes create a treasure trove of new content in these areas every year. We have an archive rich in related material which will be of interest to Welsh people and to Wales - and to those who visit Wales too. By publishing the archive and creating sub-sections by theme, our audience will be able to create their own personal S4C, on-demand.

We will partner with other organisations that are connected to specific thematic areas so that the content will be widely seen and used. From Visit Wales with their Year of Adventure 2016, to the opportunities connected to outdoor pursuits programmes such as Ar y Dibyn, to cooperating with partners all over Wales, S4C's content will be able to add value and provide opportunities to hear the Welsh language and learn about Wales - on-demand and across platforms.

At the same time, our content will continue to be available on BBC iPlayer, and we will want to co-operate further to ensure purposeful use of new resources such as the BBC iStore.

We will increase our popular presence on Twitter, Facebook, Snapchat, Pinterest and other platforms - elements which by now are expected as the norm by a very large proportion of our current and prospective audience.

An Online Collection and Archive for Wales

We have over thirty years of programmes in our archive. Our aim is to work with partners - museums, libraries and educational establishments - to ensure these are available for the people of Wales to permanently enjoy and use. **Here is a resource to sustain the nation's memories.**

But the nation has memories and experiences beyond television programmes. Our aim, therefore, would be to combine these and provide an opportunity for individuals, societies and communities to upload their own video memories to our website as short, searchable clips related to S4C's more formal archive.

Older People

We want to provide a distinct digital service for older people, developing our relationship with partners such as Age Cymru. We want to support them to exploit digital media opportunities, building on S4C's traditional popularity among this group. We would provide an accessible contact point, ways of enjoying S4C content or of learning digitally, and a way of keeping in touch with services, communities and the rest of Wales.

Hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg drwy'r DU a thramor

Mae S4C yn cyfrannu'n helaeth at ddiwylliant Cymru ac yn ei bortreadu i weddill y Deyrnas Unedig – a thu hwnt hefyd.

Y Llwyfan Rhyngwladol

Ers y dyddiau cyntaf un, mae rhaglenni S4C wedi cael eu gweld a'u gwerthu ar draws y byd. **O uchafbwyntiau animeiddio - Superted, Sam Tân, Shakespeare a'r Beibl, i'r enwebiadau Oscar am ffilmiau Hedd Wyn a Solomon a Gaenor**, mae cynnyrch S4C wedi helpu i godi ymwybyddiaeth ryngwladol o Gymru, o'r Gymraeg ac o dalent greadigol ein cenedl.

Ac mae hyn ar gynydd unwaith yn rhagor. Mewn amgylchedd sy'n sicrau bod y rhaglenni a'r cynnwys gorau posib i'n cynulleidfaoedd yn cyrraedd y sgrin, mae ein rhaglenni wedi gwneud yn dda o ran ennill gwobrau yn ddiweddar – a hynny yn rhyngwladol yn ogystal ag yng Nghymru a'r DU.

Gyda chyfresi fel Y Gwyll / Hinterland, rydym wedi gweld modelau newydd o gyd-weithio i ariannu cynnwys hefyd. Cyd-gynhyrchiad yw'r gyfres ac mae S4C wedi llwyddo i ddenu arian o wahanol ffynonellau er mwyn ariannu rhaglen o ansawdd uchel sydd wedi bod yn llwyddiannus yn fyd-eang.

Rydym mewn partneriaeth ddatblygu gyda Sony sy'n rhoi cyfle i'n cwmnïau annibynnol fynd â'r fformatau maent yn eu creu ar gyfer S4C i'r farchnad ryngwladol drwy un o'r cwmnïau cyfryngau mwyaf yn y byd.

Ymhlith y rhwydweithiau sydd, mewn gwledydd eraill, hefyd yn darparu gwasanaethau mewn ieithoedd lleiafrifol, o Iwerddon a'r Alban i Seland Newydd, mae S4C yn cael ei weld yn arloeswr yn ogystal ag yn bartner.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda BBC Alba a TG4 i ddatblygu syniadau ffres ac unigryw ar gyfer fformat rhaglen hamdden newydd, fydd yn gweithio ar gyfer y tri darlledwr. Rydym yn edrych am gyfres uchelgeisiol ac adloniannol, gydag apêl eang, fydd yn gallu cael ei haddasu ar gyfer gwylwyr yn y tair gwlad a thu hwnt.

Mae'r Gwyll wedi gwerthu i bron 30 o diriogaethau yn fyd-eang hyd yma ac mae ar gael ar Netflix hefyd. Ac mae awch cyffredinol am gynnwys o'r ansawdd orau gennym. Yn y blynyddoedd diweddar mae fformatau adloniant wedi cael eu gwerthu i wledydd gan gynnwys Tsieina a gwledydd Llychlyn. Denodd dau o'n cyd-gynrychiadau dan bartneriaeth gyda JTV y gynulleidfa fwyaf erioed ar gyfer rhaglen ddogfen yn Ne Corea – marchnad darged i UKTI a Llywodraeth y DU. A ffilm S4C Dan y Wenallt yw cais y DU eleni yng nghategori ffilm iaith dramor y gwobrau Oscar.

Mae ein hadnabyddiaeth o'r byd rhaglenni rhyngwladol yn golygu bod yna ddrws agored drwy S4C i'r farchnad ryngwladol. Rydym am adeiladu ar y sylfeini yma i ehangu presenoldeb Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Rydym wedi cefnogi cynlluniau sy'n cynnig cefnogaeth ariannol ac ymarferol i gwmnïau cynhyrchu annibynnol sydd am geisio arian cyd-gynhyrchu rhyngwladol ar gyfer rhaglenni ffeithiol. Byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd i gyd-gynhyrchu gyda phartneriaid allweddol er mwyn cynnig gwerth am arian a chynnwys o ansawdd uchel ac i geisio creu incwm o werthiannau rhyngwladol. Mae nifer o gynlluniau posib yn cael eu hystyried a'u datblygu ar hyn o bryd er mwyn ein paratoi i wthio'r uchelgais hwn yn ei flaen.

Rydym hefyd am fanteisio ar gyfleoedd newydd i gefnogi ac ymwneud â'r Cymry sy'n byw dramor ac sydd am gadw mewn cysylltiad â Chymru drwy raglenni Cymraeg. Byddwn yn troi pob carreg i sicrhau bod yr hawliau darlledu sy'n cael eu harwyddo yn caniatáu hyn, fel gyda'n darllediadau o'r Sioe Frenhinol a Thymor Patagonia 150 yn ddiweddar.

Fe fyddwn yn gweithio gyda wynebaw enwog o Gymru sy'n byw y tu allan i Gymru – sy'n llysgenhadon i'r Sianel ac i Gymru hefyd.

Byddwn am fanteisio ar y cyfleoedd hyn i gydweithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gyflwyno a gwerthu'r syniad o Gymru lwyddiannus a thalentog i weddill y byd.



Promoting Wales and the Welsh Language across the UK and Abroad

S4C's output contributes significantly to the culture of Wales and reflects it to the rest of the UK and further afield.

The International Stage

Since its earliest days, S4C's programmes have been seen, sold and celebrated all over the world, **from animation highlights - Superted, Fireman Sam, Shakespeare and the Bible – to the Oscars' nominations for the films Hedd Wyn and Solomon a Gaenor**, S4C's content has helped to raise international awareness of Wales, the Welsh language and our nation's creative talent.

And this is on the increase once again. In an environment which ensures that the best possible programmes and content for our audiences reach the screen, **our programmes have done well in terms of winning awards recently – internationally as well as in Wales and the UK.**

With series such as Y Gwyll / Hinterland, we see new models of co-operation to fund content too. The series is a co-production, and S4C has managed to attract funding from different sources to fund a high-quality programme which has been globally successful.

We are in a development partnership with Sony, which offers an opportunity for our independent companies to take the formats they create for S4C to the international market through one of the world's largest media companies.

Among the networks which, in other countries, also provide services in minority languages, from Ireland to Scotland to New Zealand, S4C is seen as a pioneer as well as a partner.

We are currently working with BBC Alba and TG4 to develop fresh and unique ideas for a new leisure programme format, which will work for all three broadcasters. We are looking for an ambitious and entertaining series, with wide appeal, which it will be possible to adapt for viewers in the three countries and beyond.

Y Gwyll has been sold to almost thirty territories worldwide so far and is also available on Netflix. And there is a general appetite for content of the highest quality from us. In recent years, entertainment formats have been sold to countries including China and the Scandinavian countries. Two of our co-productions in partnership with JTV attracted the largest audience ever for a documentary programme in South Korea – a target market for UKTI and the UK government. And the S4C film Under Milk Wood is the UK's entry this year in the Oscars' foreign language film category.

Our knowledge of the international programming world means there is an open door to the international market through S4C. We have supported schemes that offer financial and practical support to production companies that wish to secure international co-production finance for factual programming. We will increase the opportunities for co-production with key partners in order to offer value for money and high-quality content and in an attempt to create income from international sales. A number of possible plans are under consideration in order to take this ambition forward.

We also want to exploit new opportunities to support and connect with Welsh people who live abroad and wish to keep in contact with Wales through Welsh-language programmes. We will leave no stone unturned to ensure that the broadcasting rights that are agreed allow this, as with broadcasts of the Royal Welsh Show and the Patagonia 150 Season recently.

We will work with famous faces from Wales who live outside of Wales – who are ambassadors for the channel and for Wales.

We want to take these opportunities to work with the UK government and the Welsh Government to introduce and sell the idea of a successful and talented Wales to the rest of the world.

Cefnogi Addysg a Meithrin Sgiliau

Mae creu cyfleoedd i glywed y Gymraeg ac i ddysgu drwy'r iaith yn hanfodol ac fel yr unig sianel deledu Gymraeg, mae gan S4C le creiddiol iawn yn llwyddiant hyn.

Gydag addysg Gymraeg ar gynydd, mae cyfle arbennig i fanteisio i'r eithaf ar gynnwys ac arbenigedd S4C. Mae gennym dros ddeng mlynedd ar hugain o raglenni – llawer ohonynt gyda gogwydd addysgiadol pendant a llu o eitemau unigol sy'n berthnasol i'r cwricwlwm yng Nghymru.

Mae Cyw a Stwnsh eisoes yn cefnogi dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Dwylo'r Enfys yn dysgu'r iaith arwyddo Makaton drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhaglenni penodol yn hyrwyddo rhifedd a llythrennedd ac eraill sy'n berthnasol i'r cwrs addysg bersonol a chymdeithasol. Mae nifer o apiau addysgiadol wedi'u creu hefyd.

I oedolion sy'n dysgu Cymraeg mae Dal Ati yn cefnogi dysgwyr canolradd a rhai mwy rhugl gyda chefnogaeth ail sgrin, fel bod modd mwynhau dramâu S4C tra'n dysgu ac ymarfer.

Ond ein huchelgais yw gwneud mwy a chefnogi ysgolion Cymru trwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Trwy gydweithio gyda Hwb Llywodraeth Cymru a'r ERA (yr asiantaeth recordio addysgiadol), **rydym am sicrhau y bydd ein harbenigedd a'n rhaglenni ar gael i holl ysgolion Cymru dros y blynyddoedd nesaf.** Wrth gomisiynu rhaglenni, byddwn yn ystyried y defnydd y gellid ei wneud ohonynt ar gyfer addysg ac yn gweithio gyda sefydliadau addysg a'n cwmnïau cynhyrchu i sicrhau fod y cynnwys, o'r cychwyn cyntaf, wedi ei lunio mewn modd sy'n ddefnyddiol i bwrpasau addysg.

Rydym eisoes yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Urdd, y Mentrau Iaith, Llywodraeth Cymru, Twf, Canolfan Peniarth a'r Mudiad Meithrin, ac yn cychwyn gweithio gyda chanolfannau Cymraeg newydd ledled Cymru i feithrin cyfleoedd newydd i glywed a defnyddio'r iaith.

Mae trafodaethau ar y gweill o ran datblygu lleoliad fyddai'n rhoi cyfle i deuluoedd ac ysgolion ymwneud â'n gwasanaeth plant a chymeriadau poblogaidd y tu hwnt i'r cynefin dysgu ffurfiol. Y nod fydd creu llwyddiant masnachol a rhoi budd i gymuned leol tra'n hybu'r cyfle i ddysgu gyda Cyw, i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth ac i hyrwyddo brand a chynnwys unigryw S4C gyda gweddill y teulu.

Sgiliau

Mae S4C wedi chwarae rhan arloesol o ran cyflwyno sgiliau proffesiynol i'r gweithlu sy'n gwasanaethu'r diwydiant a hynny drwy Cyfle a Creative Skillset Cymru yn fwyaf diweddar. Drwy gyfraniad ariannol S4C denwyd arian cyfatebol sylweddol gan gronfeydd Ewrop a chyllid cyhoeddus arall dan weinyddiaeth Creative Skillset Cymru. O dan y cynllun Sgiliau ar Gyfer yr Economi Ddigidol, darparwyd ystod eang o gyrsiau sydd wedi bod o fudd i bob darlledwr yng Nghymru ac i'r sector greadigol gyfan. Rydym am i'r gwaith yma barhau.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein hymwneud gydag ysgolion a dysgu côdio a chreu cynnwys fideo drwy'r Gymraeg – sgil werthfawr i weithlu'r dyfodol. Rydym wedi bod yn rhan o gynllun Life yn Abertawe gan roi'r cyfle i bobl ifanc ennill profiadau gwerthfawr ym maes côdio aps, ac wedi gweithio gyda phartneriaid fel Yr Urdd, Into Film a'r Big Learning Company i gynnig gweithdai côdio poblogaidd.

Bydd cynlluniau o'r fath yn rhan greiddiol o'n paratodau i symud ein pencadlys i Gaerfyrddin yn 2018: mae cynllun peilot ar y gweill i gynnal gweithdai i gyflwyno sgiliau côdio a chreu gemau i ddisgyblion ysgolion uwchradd yn yr ardal ac i greu cynllun fydd yn annog pobl ifanc i ystyried gyrfa yn y diwydiannau creadigol. Y bwriad fydd dangos y cyfleoedd sydd ar gael, ymestyn y meysydd hyfforddiant y maent yn eu hystyried, sicrhau y bydd gweithlu creadigol yn barod i weithio yn yr ardal dros y ddegawd nesaf a chreu cynllun fydd yn annog pobl ifanc i ystyried gyrfa yn y diwydiannau creadigol.

Mae hyn oll yn cefnogi datblygiad economaidd ac ardrawiad y diwydiannau creadigol yng Nghymru tra'n sicrhau'r cynnwys gorau posib i'r gynulleidfa.



Supporting Education and Nurturing Skills

Creating opportunities to hear the Welsh language and to learn through the medium of the language is essential, and as the only Welsh-language television channel, S4C has a core role to play in achieving success.

With Welsh-medium education on the increase, there is a special opportunity to take full advantage of S4C's content and expertise. We have over thirty years of programmes – many of them with a clear educational focus – and a host of individual items which are relevant to the curriculum in Wales.

Cyw and Stwnsh already support formal and informal learning for children and young people. Dwylo'r Enfys teaches the Makaton sign language through the medium of Welsh. Specific programmes promote numeracy and literacy and others are relevant to the personal and social education course. A number of educational apps have been created too.

For adults who are learning Welsh, Dal Ati supports intermediate learners and more fluent learners through second screen support, so that S4C dramas can be enjoyed whilst learning and practising.

But our ambition is to do more and support Welsh schools by utilising the latest technology. Through working with the Welsh Government's Hwb programme and ERA (the Educational Recording Agency), **we want to ensure that our expertise and our programmes are available to all schools in Wales over the coming years.** When commissioning programmes, we will consider the use that can be made of them for education and work with educational organisations and our production companies to ensure, from the outset, that content is tailored in a way that's useful for educational purposes.

We have already worked in partnership with the Urdd, the Mentrau Iaith, the Welsh Government, Twf, Canolfan Peniarth and Mudiad Meithrin, and are now working with new Welsh-language centres across Wales to nurture new opportunities to hear and use the language.

Discussions are in progress in terms of developing a location which would provide the opportunity for families and schools to engage with our children's service and its popular characters beyond the formal learning environment. The aim would be to create commercial success and benefit the local community whilst promoting the opportunity to learn with Cyw, to use the Welsh language outside of the classroom, and to promote S4C's unique content and brand to the rest of the family.

Skills

S4C has played an innovative part in terms of introducing professional skills to the workforce which serves the industry, most recently through Cyfle and Creative Skillset Cymru. Through S4C's financial contribution, significant match funding was attracted from European funds and other public funding, administered by Creative Skillset Cymru. Under the Skills for the Digital Economy scheme, a wide range of courses was provided, which have been beneficial to all broadcasters in Wales and to the whole creative sector. We want this work to continue.

We will continue to develop our engagement with schools, teaching coding and creating video content through the medium of Welsh – a valuable skill for the workforce of the future. We have been a part of the Life scheme in Swansea, giving young people the chance to gain valuable experience of coding apps, and have worked with partners such as the Urdd, Into Film and the Big Learning Company to offer popular coding workshops.

Schemes such as these will be a core part of our preparations to move our headquarters to Carmarthen in 2018: a pilot scheme is in progress to host workshops and introduce coding skills and create games for secondary school pupils in the area and to create a scheme which will encourage young people to consider a career in the creative industries. The aim will be to show the opportunities that are available, expand the training areas they are considering, ensuring there will be a creative workforce ready to work in the area over the next decade, and create a scheme that will encourage young people to consider a career in the creative industries.

All of this supports economic development and the impact of the creative arts in Wales, whilst ensuring the best possible content for the audience.

Ariannu'r Cyfnod Nesaf

Cyllid Presennol S4C

Ers Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011, mae dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, i sicrhau ‘arian digonol’ i gynnal gwasanaeth S4C ac mae hyn yn ymrwymiad pwysig gan y llywodraeth ganolog i’r iaith Gymraeg ac i bobl Cymru.

Ar hyn o bryd daw

- 8% gan DCMS (2015-16 £6.762m, 2016+ i’w gadarnhau)
- 90% o ffi’r drwydded (2015-16: £75.25m, 2016-17: £74.5m)
- tua 2% o hysbysebion ac incwm masnachol.

Nid yw dyddiad adolygu a/neu derfynu’r trefniadau ar gyfer ffi’r drwydded ac arian y DCMS yn cyd-redeg. Mae hyn yn creu cryn gymhlethdod wrth geisio sicrhau y bydd S4C yn parhâu i dderbyn arian digonol a hynny o fwy nag un ffynhonnell.

Adolygiad Gwariant y Llywodraeth ganolog – Tachwedd 2015:

Fel yn achos cyrff eraill sy’n cael eu cyllido gan yr Adran, mae DCMS wedi gofyn i S4C fodelu toriadau effeithlonrwydd posibl o rhwng 10%, 25% a 40% o gyfraniad presennol y Llywodraeth, sef £6.762m. Mae hyn yn cynrychioli **toriad posibl o rhwng £672,000 a £2,705,000 y flwyddyn;**

Amserlen adolygu siarter y BBC a gosod lefel cyfraniad ffi’r drwydded i S4C:

Mae’r Cytundeb Gweithredu gydag Ymddiriedolaeth y BBC, sy’n darparu’r arian o ffi’r drwydded, yn terfynu ym mis Mawrth 2017, yr un pryd â Siarter Frenhinol y BBC. Mae Siarter y BBC yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, gan gynnwys yr incwm ddaw o ffi’r drwydded, a’r farn gyffredinol yw na fydd y broses wedi’i chwblhau tan Hydref 2016.

Mae’r Llywodraeth ganolog wedi awgrymu ei bod yn ‘rhesymol’ i S4C wynebu toriadau ac arbedion effeithlonrwydd cyfatebol i’r rhai y gallai’r BBC fod yn eu hwynebu o 2017/18 ymlaen. Gan ddibynnu ar ba ddehongliad a wneir o ganlyniadau tebygol setliad y drwydded deledu, **gallai hynny olygu fod S4C yn wynebu toriad o rhwng 0% ac 20% o’r cyfraniad presennol o £75.4m, hynny yw, toriad ychwanegol posibl o hyd at £15m. Mae Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC wedi cychwyn trafodaethau i weld a oes modd dod i ddealltwriaeth ynglŷn â sut y gallai’r egwyddor yma gael ei dehongli a’i gweithredu, a beth fyddai’r canlyniad tebygol.**

Nid yw’n afresymol i ddadlau y dylai pob corff cyhoeddus fod yn barod i ysgwyddo baich toriadau cyffredinol ac i fod yn fodlon chwilio’n barhaus am arbedion effeithlonrwydd. Nid yw S4C yn dymuno osgoi’r cyfrifoldeb hwn. Ond wrth ystyried beth yw “arian digonol” S4C yn ei gyd-destun priodol, **dylid hefyd gymryd i ystyriaeth y toriadau sylweddol y mae S4C eisoes wedi’u hwynebu ers 2010 a’r arbedion sylweddol sydd eisoes wedi’u creu wrth ddygymod â’r toriad blaenorol.**

Ar y lefel uchaf o doriadau a drafodir uchod mi fyddai incwm S4C wedi’i dorri o 50% mewn termau real ers 2010. Mae’r sianel wedi gweithio’n agos gyda’r diwydiant i greu arbedion yn y broses gynhyrchu ac wedi gweithredu’n fewnol i sicrhau arbedion gweithredol. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi gallu lleihau’r effaith weledol ar y sgrin cymaint â phosibl. **Ni fyddai hyn yn bosibl gyda thoriadau sylweddol pellach i gyllideb S4C; byddai’n rhaid ail-ystyried hyd a lled y gwasanaeth, cynlluniau rhaglenni a gobeithion y dyfodol mewn modd sylfaenol.**

Yn y pendraw, byddai hynny’n cael effaith bellgyrhaeddol ar y gwasanaeth a gynigir i’r gynulleidfa, ar ffyniant y diwydiannau creadigol yng Nghymru a’u gweithluoedd - ac ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Rydym o’r farn y dylid ystyried anghenion ariannu digonol S4C ar wahân i’r trafodaethau presennol am ddyfodol ariannol y BBC. I’r perwyl hynny credwn y dylid cynnal proses neu adolygiad cymesur a thryloyw er mwyn cynorthwyo’r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu ar anghenion ariannu digonol S4C yn unol â’i ddyletswydd statudol yn y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus ar gyfer y cyfnod ariannu nesaf o 2017. Mae S4C yn barod ar bob adeg i gydweithio’n llawn ag unrhyw broses neu adolygiad i’r perwyl hyn.

Barn gwylwyr S4C am ariannu S4C [Ymchwil Panel Ymateb Wythnos 17 2015 (Kantar Media)].

83% o’r rhai a holwyd yn credu na ddylai S4C gael ei heffeithio gan doriadau cyllid pellach o ystyried safle unigryw S4C fel yr unig sianel deledu Gymraeg yn y byd.

Teimlad cryf iawn ymysg gwylwyr S4C y dylai S4C barhau i dderbyn cyllid digonol i allu cynnig yr ystod o raglenni a’r gwasanaethau y mae’n ei wneud hefyd (cyfartaledd o 8/10 ble’r oedd 0 yn ddibwys a 10 yn hynod bwysig.)

Financing the Next Phase

S4C’s Current Funding

Since the Public Bodies Act 2011, the Secretary of State for Culture, Media and Sport has a duty to ensure “sufficient funding” to maintain S4C’s service. This is an important commitment by central government to the Welsh language and the people of Wales.

Current funding sources are as follows

- 8% from DCMS (2015/16: £6.762m, 2016+ to be confirmed)
- 90% from the licence fee (2015/16: £75.25m, 2016/17: £74.5m)
- approximately 2% from advertising and commercial income

The review and/or termination date of the arrangements for the licence fee and DCMS funding do not coincide. This creates complications when trying to ensure that S4C will continue to receive sufficient funding from more than one source.

Central Government Spending Review – November 2015:

As in the case of other bodies which are funded by the department, DCMS has asked S4C to model possible efficiency cuts of between 10%, 25% and 40% of the government’s current contribution of £6.762m. This represents a **possible cut of between £672,000 and £2,705,000 a year.**

The timetable for reviewing the BBC’s charter and setting the level of the licence fee contribution to S4C:

The Operating Agreement with the BBC Trust, which provides funds from the licence fee, comes to an end in March 2017, at the same time as the BBC’s Royal Charter. The BBC’s Charter is currently being reviewed, including the income which comes from the licence fee, and the general consensus is that the process will not be completed until autumn 2016.

Central government has suggested it is “reasonable” for S4C to face cuts and efficiency savings which correspond to those the BBC could be facing from 2017/18 onwards. Depending on the interpretation of the likely results of the television licence settlement, **that could mean S4C facing a cut of between 0% and 20% of the current contribution of £75.4m, which is a possible additional cut of up to £15m. The S4C Authority and the BBC Trust have initiated discussions to ascertain whether it is possible to come to an understanding in terms of how this principle could be interpreted and implemented, and what the likely result would be.**

It is not unreasonable to argue that all public bodies should be prepared to shoulder the burden of general cuts and be prepared to search constantly for efficiency savings. S4C does not wish to avoid this responsibility. However in considering what “sufficient funds” means in its appropriate context, **the substantial cuts which S4C has already faced since 2010 and the significant savings that have already been created whilst coping with previous cuts should be taken into account.**

At the highest level of cuts discussed above, S4C’s income would be cut by more than 50% in real terms since 2010. The channel has worked closely with the industry to ensure savings in the production process and has operated internally to ensure operational savings. This has meant that we have been able to minimise the visual effect on-screen as much as possible. **This would not be possible with further substantial cuts to S4C’s budget; the breadth of the service, programme plans and hopes for the future would have to be fundamentally reconsidered.**


Ultimately, there would be a far-reaching effect on the service provided to the audience, on the prosperity of the creative industries in Wales and their workforces, and on Welsh language and culture.

We believe that consideration of S4C’s funding needs should be separate from present discussions about the financial future of the BBC. To that end, we believe that a proportionate and transparent process or review should be undertaken in order to assist the Secretary of State in making a decision on S4C’s funding needs, in line with his statutory duty in the Public Bodies Act for the next phase of funding from 2017. S4C is ready to cooperate fully at all times with any process or review to this end.

The opinion of S4C viewers on the funding of S4C [Response Panel Research Week 17 2015 (Kantar Media)].

83% of those questioned believe that S4C should not be affected by further funding cuts taking into account S4C’s unique position as the world’s only Welsh-language television channel.

There is a strong feeling among S4C viewers that S4C should continue to receive sufficient funding to provide the range of programmes and services it currently provides (an average of 8/10 where 0 was unimportant).



Casgliad

Mae'r blynyddoedd nesaf am fod yn rhai tyngedfennol i ddarlledu yn yr iaith Gymraeg. Mae'r heriau'n sylweddol, ond mae yna hefyd gyfleoedd mawr.

Rhaid i S4C wasanaethu cynulleidfa amrywiol iawn, o ran ei chwaeth a'i defnydd o dechnoleg. Rhaid tanio dychymyg yr ifanc a chyfarfod â disgwiliadau poblogaidd yr un pryd. Rhaid bod yn llwyfan hanfodol i'r iaith, tra'n mynd â neges obeithiol am Gymru allan i'r byd.

Mae yna ddiwydiant creadigol ffyniannus yng Nghymru gyda'r gallu i dyfu a chreu swyddi pellach. Mae yma bartneriaethau addysgiadol a chelfyddydol i gymryd mantais o dechnoleg newydd a chyfoethogi bywydau.

Mae yna ddealltwriaeth eang o bwysigrwydd annibyniaeth y gwasanaeth sy'n rhoi llwyfan unigryw i'r Gymraeg, ond bydd gallu S4C i gwrdd â holl heriau'r dyfodol tra'n gwneud yn fawr o'r cyfleoedd, yn dibynnu ar yr adnoddau - o ran talent, sgiliau a chyllid - a fydd ar gael.

Rydym am sicrhau fod yna drafodaeth eang ynglyn â'r dyfodol yma. Rydym am weld unigolion a chymunedau'n ymateb gyda ni i'r heriau, ac wrth i ddyfodol darlledu cyhoeddus gael ei drafod, rydym am sicrhau fod sylw llawn, amserol ac annibynnol yn cael ei roi i'r unig wasanaeth teledu Cymraeg sydd ar gael yn y byd.

Conclusion

The coming years will be decisive for Welsh-language broadcasting. The challenges are significant, but there are big opportunities.

S4C has to serve a very varied audience in terms of tastes and use of technology. It needs to capture the imagination of young people, and to meet popular expectations at the same time. It must be an essential platform for the language, while also sending out an optimistic message to the world about Wales.

There is a thriving creative industry in Wales, which has the ability to grow and create further jobs. There are educational and artistic partnerships in play here that take advantage of new technology and enrich lives.

The importance of the independence of the service that provides a unique platform for the Welsh language is widely understood, but S4C's ability to meet all future challenges while making the most of the opportunities will be dependent on the resources - in terms of talent, skills and finance - which will be available.

We want to ensure that there is a widespread discussion about this future. We want to see individuals and communities responding with us to the challenges. As the future of public broadcasting is discussed, we want to ensure that full, timely and independent attention is given to the world's only Welsh language television service.

S4C yn 2014/15

8.4 miliwn

Nifer o bobl wyliodd S4C drwy'r DU yn 2014/15 (2013/14: 6.5m)

5.7 miliwn

Sesiynau gwyllo arlein (2013/14: 4.4m, 2012/13: 2.9m)

1.58 miliwn

Nifer o bobl sy'n tiwnio mewn i S4C ar gyfartaledd bob mis (cyrhaeddiad 3 munud) (2013/14: 1.36m)

1.2 miliwn

Nifer wyliodd raglenni o ddigwyddiadau'r flwyddyn ar deledu (2013/14: 1.2 miliwn)

605,000

Nifer y gwylwyr trwy'r DU yn ystod wythnos gyffredin (2013/14: 551,000)

380,000

Nifer sy'n gwyllo gwasanaeth Cyw bob mis (2013/14: 241,000)

360,000

Nifer y gwylwyr yng Nghymru sy'n gwyllo ar gyfartaledd bob wythnos (2013/14:

383,000)

173,000

Nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru sy'n gwyllo ar gyfartaledd bob wythnos (2013/14: 187,000)

145,000

Nifer o sesiynau gwyllo arlein o ddigwyddiadau'r flwyddyn

£10,709

Cost yr awr Cynnwys S4C yn 2014/15 (gostyngiad o 35% ers 2009)

1,929

Oriau o raglenni gwreiddiol a ddarllledwyd

£117 miliwn

Effaith economaidd S4C ar economi Cymru

£170 miliwn

Effaith economaidd S4C ar economi'r DU

£2.09

Mae bob £1 sy'n cael ei fuddsoddi gan S4C yn yr economi yn fwy na dyblu yn ei werth

S4C in 2014/15

8.4 million

Number of people who viewed S4C throughout the UK in 2014/15 (2013/14: 6.5m)

5.7 million

Online viewing sessions (2013/14: 4.4m, 2012/13: 2.9m)

1.58 million

Number of people tuning in to S4C on average each month (3-min reach) (2013/14: 1.36m)

1.2 million

Number who viewed programmes from the year's events on television (2013/14: 1.2 million)

605,000

Number of viewers throughout the UK in an average week (2013/14: 551,000)

380,000

Number who view the Cyw service each month (2013/14: 241,000)

360,000

Number of viewers in Wales in an average week

(2013/14: 383,000)

173,000

Number of Welsh-speaking viewers in Wales in an average week (2013/14: 187,000)

145,000

Number of online viewing sessions from the year's events

£10,709

Cost per hour of S4C Content in 2014/15 (reduction of 35% since 2009)

1,929

Hours of original programmes broadcast

£117 million

S4C's economic impact on the Welsh economy

£170 million

S4C's economic impact on the UK economy

£2.09

Every £1 invested by S4C in the economy more than doubles in value

Cysylltu â ni

Mae S4C wastad yn falch i glywed barn ein gwylwyr.

Os ydych yn dymuno cyflwyno eich barn am ein rhaglenni neu os ydych eisiau gwybodaeth bellach, fe fyddem yn falch i glywed gennych.

Fe allwch gysylltu ag S4C dros y ffôn, drwy ebost, twitter, facebook neu drwy lythyr.

Twitter

@s4c

Facebook

s4c

Gwefan

s4c.cymru

Ebost

s4c@s4c.cymru

Gwifren

0370 600 4141

Rhif ffôn swyddfa Caerdydd

029 2074 7444

Rhif ffôn swyddfa Caernarfon

01286 674622

Cyfeiriad

S4C	S4C
Parc Tŷ Glas	Doc Fictoria
Llanisien	Caernarfon
Caerdydd	Gwynedd
CF14 5DU	LL55 1TH

Contacting us

S4C is always pleased to hear our viewers' opinions.

If you want to share your opinion about our programmes or if you want further information, we'd be happy to hear from you.

You can contact S4C by phone, email, twitter, facebook or by letter.

Twitter

@s4c

Facebook

s4c

Website

s4c.cymru

Email

s4c@s4c.cymru

Gwifren

0370 600 4141

Cardiff office telephone number

029 2074 7444

Caernarfon office telephone number

01286 674622

Address

S4C	S4C
Parc Tŷ Glas	Doc Fictoria
Llanishen	Caernarfon
Cadiff	Gwynedd
CF14 5DU	LL55 1TH

